



**Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru**
South Wales
Fire and Rescue Service


CYNLLUN GWELLA BLYNYDDOL

Sut y gwnaethom yn 2023-2024
a beth rydym yn cynllunio i wneud yn 2025-2026



Cynnwys

Rhageiriau	4
Cyflwyniad	7
Datganiad llesiant	8
Adolygiad Annibynnol i Ddiwylliant a'r Rhaglen Drawsnewid	12
Amdanom ni: ein cymunedau	18
Amdanom ni: ein Gwasanaeth	26
Trosolwg Ystadegau 2023-2024	34
Sut y gwnaethom berfformio yn 2023-2024	36
Awdurdodau Unedol	48
Archwiliadau 2023-24 Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru	54
Ein themâu strategol	56
Sut wnaethom ddatblygu ein cynllun ar gyfer 2025-2026	76
Beth rydym yn cynllunio i'w wneud yn 2025-2026	80
Trawsnewid: Rhaglen Camu Ymlaen	82
Yr Iaith Gymraeg	94





Rhagair

Y Prif Swyddog Tân



Vij Randeniya, OBE



Y Farwnes Wilcox o Gasnewydd FRSA - Debbie Wilcox



Carl Foulkes, QPM, MA



Kirsty Williams CBE



PST Dros Dro Stuart Millington

Helo, a chroeso i'n Cynllun Gwella Blynyddol diweddaraf.

Bwriad y cynllun hwn yw dathlu a myfyrio ar bopeth rydym wedi'i gyflawni fel sefydliad yn ystod 2023-2024, ond hefyd i nodi ein cynlluniau a'n Themâu Strategol i'n helpu i gyflawni ein cenhadaeth o gadw De Cymru'n ddiogel wrth leihau risg yn 2025- 2026 a thu hwnt.

Roedd 2024 yn annhebyg i unrhyw flwyddyn arall i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad annibynnol gan Fenella Morris CB ar Ddiwylliant a Gwerthoedd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ar 3 Ionawr 2024, defnyddiodd Llywodraeth Cymru ei rymoedd cyfeiriol o dan adrannau 29(5) a (6) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i dynnu swyddogaethau llywodraethu'r Awdurdod Tân rhagdynt a'u trosglwyddo hwy i ni fel Comisiynwyr.

Rhodddwyd gofal i ni wrth sicrhau gweithrediad llwyr a chynaliadwy o'r argymhellion sy'n deillio o Adolygiad Morris, yn ogystal â gweithredu ar argymhellion Prif Ymgynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub (PYATA) Llywodraeth Cymru.

Comisiynwyd Arolygiaeth Gwasanaethau Heddlua a Tân ac Achub Ei Mawrhydi (AGHTh AEM) i gynnal asesiad o'r Gwasanaeth. Bydd yr asesiad hwn yn cyfannu yn hytrach na dyblygu gwaith Fenella Morris CB. Disgwylir i ganlyniadau'r asesiad adeiladu ar Adolygiad Morris wrth ychwanegu cyd-destun a mewnelediad pellach i elfennau gweithredol a phobl y Gwasanaeth, yn ogystal â chyfrannu ar weithgareddau sy'n ymwneud ag adolygiadau thematig a gynhelir gan AGHTh AEM O ganlyniad, dylai'r

Gwasanaeth fod yn gallu deall ei alluogrwydd, ei berfformiad a'i ganlyniadau yn llwyr mewn modd strwythuredig a chymesur.

Yn dilyn proses recriwtio cynhwysfawr a gynhwysodd staff ledled y Gwasanaeth, yn ogystal ag asiantaethau partner allanol, penodwyd yr Is-farsial Awyr Fin Monahan OBE DFC PhD yng Ngorffennaf yn Brif Swyddog Tân parhaol newydd, a fydd yn cymryd awenau arweinyddiaeth y Gwasanaeth o Brif Swyddog Tân Dros Dro Stuart Millington ym mis Tachwedd. Mae Fin yn ymuno â'r Gwasanaeth yn dilyn gyrfa nodedig ac addunedig fel peilot awyrennau cyflym a phrif arweinydd yr Awyrlu Brenhinol a'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Mae wedi cwblhau amryw o gyrchoedd gweithredol dramor yn ogystal â gwasanaethu yn y DG. Edrychwn ymlaen at ei groesawu i'r Gwasanaeth.

Yn ychwanegol at hyn, penodwyd Dominic Mika hefyd eleni fel Cyfarwyddwr Newid Strategol a Thrawsnewid. Mae Dominic yn arwain rhaglen Camu Ymlaen, Rhaglen Drawsnewid a Newid y Gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys cyfres o 9 o brosiectau sy'n ymwneud â Diwylliant, Llywodraethiant, Arweinyddiaeth, Gwerthoedd, Cydraddoldeb, Amrywiaeth a

Chynhwysiant, Cyfathrebu ac Ymgysylltu, Polisiâu a Gweithdrefnau, Rheoli Talent a Thrawsnewid Digidol. Gyda'i gilydd, bydd y prosiectau hyn yn darparu newid ac yn sicrhau bydd y Gwasanaeth yn barod i grwdd â heriau a sialensiau'r dyfodol.

Rydym yn cydnabod ei fod wedi bod yn flwyddyn anodd ac mae llawer o waith eto i'w wneud, ond mae'n bwysig i ni gydnabod a dathlu'r cynnydd a wnaed hyd yma. Hefyd, nid ydym am golli golwg o'r gwaith ardderchog a wneir gan staff yn ddyddiol i wneud cymunedau De Cymru'n le diogel. Ymhlith yr holl heriau a newid, mae un peth yn aros yr un fath, sef ein hymroddiad i'r bobl rydym yn gwasanaethu.

Ein gweledigaeth ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, a'r hyn rydym yn gweithio tuag ato, yw iddo fod yn wasanaeth tân ac achub iach, effeithlon ac effeithiol. Yn darparu gwasanaeth ardderchog i'n cymunedau a chefnogi staff i fod y gorau gallent fod. Dim ond wrth gydweithio â'n gilydd (Comisiynwyr, staff, cyrff cynrychioladol a rhanddeiliaid allanol) y gellir cyflawni hyn ac wrth gefnogi'n gilydd - ni ellir ei gyflawni gan un person ar ei ben ei hun/phen ei hun.

Cafodd y Gwasanaeth flwyddyn heriol yn dilyn cyhoeddiad yr Adroddiad Adolygiad Annibynnol i Ddiwylliant, a'r penderfyniad a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i ddisodli'r Awdurdod Tân ac Achub â phedwar Comisiynydd.

Fe gymerais yr awennau fel PST Dros Dro yn Chwefror 2024 ar secondiad o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, ac er gwaetha'r anhawsterau rydym wedi'u hwynebu, rwy'n falch o'r gwaith a gymrodd lle ar draws y sefydliad a'r tir a enillwyd wrth ymateb i'r 82 argymhelliad a gynhwyswyd o fewn yr Adolygiad Annibynnol i Ddiwylliant, a'r cynnydd a wnaed yn erbyn argymhellion adolygiad thematig y Prif Ymgynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub i Gymru blaenorol a'r meysydd eraill a gynhwyswyd o fewn cylch gorchwyl y Comisiynwyr ar gyfer Awdurdod Tân De Cymru.

O dan yr ymbarél hwn, gofynnwyd am agwedd gydgyssylltiol, fel hynny'n arwain at lansiad y rhaglen drawsnewid Cam Ymlaen - portffolio o naw prosiect fydd yn gyrru'r Gwasanaeth ymlaen ac yn sicrhau ei fod yn bwrpasol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Bydd penodi Cyfarwyddwr Newid Strategol, Pennaeth Cyfathrebiadau ac Ymgysylltu, Pennaeth Cyllid a Rheolwr Newid Diwylliant yn helpu sicrhau arweinyddiaeth effeithiol ar draws y sefydliad ynghyd â sbarduno gwelliant parhaus i wneud y Gwasanaeth yn weithle cynhwysol a chrosawus lle bydd pawb yn teimlo eu bod wedi'u gwerthfawrogi.

Eleni, gwelwyd ni'n dod o dan ddylanwad cyfnod o graffu allanol dwys, ac er derbyniwyd llawer o feirniadaeth gennym fel Gwasanaeth ynghyd â ffocws ar waith sydd eto'i gyd angen ei gyflawni, mae'n bwysig cydnabod a dathlu llwyddiannau ein sefydliad hefyd.

Ynghynt eleni, ymunodd GTADC â chonfoi Tân ac Achub fwyaf y DG i gyflenwi offer achub bywyd hanfodol i'n cymheiriaid yn yr Iwcrain.

Hefyd, daethom i fod y gwasanaeth tân ac achub cyntaf yng Nghymru i gyflwyno darpariaeth tâl mamolaeth 52-wythnos o hyd ac fe gawsom ein hurddo â Gwobr Arian Cynllun Cydnabyddiaeth Cyflogwyr (CCC) Gweinyddiaeth yr Amddiffyn (GyA) arobryn, yn adlewyrchu ein hymroddiad i gefnogi Cymuned y

Lluoedd Arfog a'n statws fel cyflogwr o ddewis.

Daw newid sylweddol arall i'r Gwasanaeth o dan y newidiadau arfaethedig i'r modd rydym yn ymateb i larymau tân awtomatig (LTA) o'r 6ed o Ionawr, 2025. Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, byddwn yn mabwysiadu risg gyda'r nos yn unig i safleoedd risg uchel, yn rhyddhau amser ac adnoddau gwerthfawr a'n caniatáu ni i ganolbwyntio ar ein hymroddiad craidd 'I wneud De Cymru'n ddiogelwch wrth leihau risg'.

Cyfarwyddwr Newid Strategol a Thrawsnewid

CODI YMWYBYDDIAETH | LLEIHOU RISG



Dominic Mika

Rwy'n falch o'n Gwasanaeth a'r ymroddiad a'r ymrwymiad rydym yn arddangos wrth leihau risg i gymunedau De Cymru. Rydym yn parhau i dyfu, dysgu a gwella i sicrhau ein bod yn cwrdd â'r heriau newidiol i'r cyhoedd. Mae ein diffoddwyr tân yn hynod hyfforddedig fel y gallwn ymateb yn effeithiol i ystod o argyfyngau pan fydd ein cymunedau ein hangen ni fwyaf. Dylwn ddathlu'r gwaith rydym yn gwneud o fewn ein cymunedau i leihau risg ac atal argyfyngau. Mae ein 47 gorsaf dân yn parhau wrth galon cymunedau De Cymru, ac mae ein staff yn parhau i wasanaethu'r cyhoedd, fel y gallwn fod yna pan fyddwch ein hangen 24 awr y dydd bob dydd o'r flwyddyn

Rydym yn parhau'n ymrwymedig i wella ein gwasanaethau i'r cyhoedd ac rydym wedi datblygu rhaglen drawsnewid uchelgeisiol, gyda ffocws ar arwain, cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol ynghyd ag arddangos yr effaith gadarnhaol a gawn o fewn ein cymunedau. Drwy law naw prosiect gwella sy'n flaenoriaeth a adnabuwyd gan ein staff, ein nod yw bod y gorau gallwn fod ac rydym yn gweithio gyda'n gilydd i gyflawni'r rhaglen hon ar gyfer newid.

Cyflwyniad

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth tân ac achub (GTA) effeithlon ac effeithiol i 10 awdurdod unedol gyda chyfanswm poblogaeth o dros 1.5 miliwn o bobl. Yn ddaearyddol rydym yn gyfrifol am leoliadau gwledig, arfordirol a threfol sy'n ymestyn dros 2,800 cilometr sgwâr. Mae data gan y cyfrifiad yn dangos ein bod yn gwasanaethu rhai o'r cymunedau mwyaf poblog a'r rhai sy'n tyfu gyflymaf yng Nghymru.

Nodir y gwasanaethau y mae'n rhaid i ni eu darparu mewn gofynion cyfreithiol a dyletswyddau gorfodol gan gynnwys:

- ▶ **Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004**
- ▶ **Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ('y Mesur')**
- ▶ **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ('DLI CD')**
- ▶ **Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Llywodraeth Cymru 2016**

Yn ogystal â hyn, mae gennym ystod o ddyletswyddau fel cyflogwr a chorff cyhoeddus. Mae'r Mesur wedi'i ddynodi'n 'Awdurdod Gwella Cymreig', ac o ganlyniad mae hi'n ofynnol i ni osod a chyhoeddi amcanion gwella ac ymgynghori ar y rhain, gan ddangos bod ein cynlluniau'n ystyried y saith agwedd ar wella:

- EFFEITHIOLRWYDD STRATEGOL**
- CYNALIADWYEDD**
- ANSAWDD GWASANAETH**
- EFFEITHLONRWYDD**
- ARGAELEDD GWASANAETH**
- TEGWCH**
- ARLOESIDD**

Mae DLI CD yn ei gwneud yn ofynnol i ni osod a chyhoeddi amcanion llesiant a gynlluniwyd i wneud y mwyaf o'n cyfraniad at wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol cenedlaethau o bobl Cymru yn y dyfodol. O dan yr 'egwyddor datblygu cynaliadwy', sy'n cynnwys saith nod, rhaid inni gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hyn. Bob blwyddyn rydym yn cyhoeddi datganiad fel rhan o'n hadroddiad blynyddol ar ein cynnydd, gan gynnwys ein hymateb i unrhyw argymhellion gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.


Mae gennym ddyletswydd i ddiogelu pobl, cymunedau, busnesau ac amgylchedd De Cymru rhag tanau a pheryglon eraill. Er mwyn gwneud hyn yn effeithiol ac yn effeithlon, ar hyn o bryd ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, rydym yn ystyried anghenion a barn ein cymunedau yn barhaus, gan nodi ac asesu risg wrth fonitro heriau sy'n dod i'r amlwg. Mae'r Cynllun Gwella hwn yn edrych yn ôl i 2023-2024 ac yn adolygu cyflawniad yn erbyn y cynlluniau a'r dangosyddion perfformiad a nodwyd gennym. Mae hefyd yn edrych ymlaen at 2025-2026, gan amlinellu ein hamcanion a'n gweithgareddau arfaethedig sy'n agored i ymgynghoriad cyhoeddus.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Gwasanaeth wedi cael cyfnod o graffu dwys. Mae ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn cydnabod yr angen am newid pellgyrhaeddol ac ystyrlon gyda goruchwyliaeth a chefnogaeth gan Fwrdd y Comisiynwyr. Mae eu Cylch Gorchwyl, ynghyd ag argymhellion o'r Adolygiad Diwylliant Annibynnol ac adroddiadau eraill ar draws y sector, wedi cael eu cyfuno i fapio ein blaenoriaethau gwella ar gyfer gweithredu drwy law agenda drawsnewid ar y cyd. Mae'r rhaglen Camu Ymlaen yn dwyn ynghyd bortffolio o brosiectau a fydd yn symud y Gwasanaeth yn ei flaen, gan gefnogi datblygiad unigol, cydnabod ac annog cyfranogiad, i sicrhau bod y Gwasanaeth yn addas ar gyfer y dyfodol.



Datganiad Ilesiant

CODI YMWHYBYDDIAETH | LLEIHAU RISG



Mae egwyddor datblygu cynaliadwy DLI CD yn nodi:

Dylai cyrff Gwasanaethau Cyhoeddus weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu, heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Ein bod wedi ymrwymo i gyflawni ein dyletswyddau o dan DLI CD.

Wrth i ni ddatblygu ein Themâu Strategol, sef y blaenoriaethau lefel uchel sy'n llywio ein cynllun, mae saith nod DLI CD yn cael eu hystyried er mwyn sicrhau ein bod yn cyfrannu at eu cyflawni.

Mae'r DLI CD hefyd yn nodi'r pum ffordd ganlynol o weithio y mae'n rhaid i ni eu hystyried a gweithredu yn unol â hwy wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau:



Hirdymor

Cydbwysu anghenion tymor byr ag anghenion hirdymor:

Mae cymryd golwg tymor hwy yn ein Cynllun Strategol 2020-2030 yn ein galluogi i ystyried sut y bydd tuddiadau a newidiadau'r dyfodol yn effeithio ar y cyhoedd a'n gwasanaethau, gan gynnwys newid yn yr hinsawdd a newid demograffig.



Atal

Darparu adnoddau i atal problemau:

Mae ein gweithgarwch ataliol yn amrywio o weithio gyda busnesau a pherchnogion adeiladau i wneud eiddo'n ddiogel i weithio gydag unigolion a grwpiau i newid ymddygiad, y cyfan gyda'r nod o atal yr angen am ymateb brys.



Integreiddio

Defnyddio dull integredig drwy gydbwysu anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol:

Ymgwymerir â'n proses gynllunio ar y cyd drwy gynnwys rhanddeiliaid amrywiol gan gynnwys ein staff, ein partneriaid ac aelodau'r cyhoedd, i sicrhau bod effaith cynigion yn cael eu harchwilio'n llawn.



Cydweithio

Cydweithio ag eraill i helpu cyflawni amcanion Ilesiant:

Rydym yn gweithio gydag ystod eang o bartneriaid ar lefel strategol a lleol.



Cynnwys

Cynnwys eraill i adlewyrchu amrywiaeth meysydd:

Mae ein gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu yn sicrhau bod cyfleoedd i gyfrannu safbwyntiau a syniadau.

Mae llwyddiant DLI CD yng Nghymru wedi'i gydnabod gan y Cenhedloedd Unedig gyda datganiad ar Gyfrifoldebau'r Cenedlaethau Cyfredol Tuag at Genedlaethau'r Dyfodol a galwad i osod cenedlaethau'r dyfodol wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau.



DYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL 2021

Rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru ystyried sut mae penderfyniadau strategol yn effeithio ar y rhai sy'n byw mewn amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol, er enghraifft, e.e. tlodi neu fynediad anghyfartal i wasanaethau megis trafniadau. Gall anfantais o'r fath arwain at anghydraddoldebau o ran canlyniadau gan gynnwys iechyd gwaeth, cyrhaeddiad

addysgol is, a chyfleoedd gwaith llai ffafriol. Felly, rydym yn rhoi sylw dyledus i anfantais economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol, sy'n cyfrannu at nodau DLI CD. Rhaid i benderfyniadau a ystyrir gan Gomisiynwyr neu uwch reolwyr gael eu hystyried ynghyd â'u heffaith economaidd gymdeithasol.

Rydym yn cwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

wrth ddatblygu prosiectau, diwygio neu ysgrifennu polisiâu, dylunio mentrau/ymgyrchoedd, ac ati, a chaiff yr asesiadau hyn eu hadolygu'n barhaus i sicrhau bod ein gweithgareddau'n wirioneddol gynhwysol. Drwy fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau i gael mynediad at ein gwasanaethau, rydym yn canolbwyntio ar y bobl rydym yn eu gwasanaethu.

Mae Strategaeth Gaffael Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru 2022-2027 yn parhau i gael ei hadolygu, er mwyn sicrhau bod y ddyletswydd newydd yn cael ei gweithredu'n effeithiol. Ar gyfer ein Gwasanaeth, mae ein dogfen egwyddorion datblygu cynaliadwy, sy'n cyfeirio ein prosesau gwneud penderfyniadau, ar gael i'r holl staff ar y fewnryd Rydym hefyd wedi nodi amcanion Blaenoriaeth Allweddol fel meysydd pwysig i'w gwella, gan gynnwys:

CYNLLUNIAU RHEOLI RISG CYMUNEDOL (CRh RC)

Mae pob un o'n 47 o orsafoedd tân ac achub yn cynhyrchu CRh RC blynyddol gan gynnwys asesiad o ddemograffeg, er mwyn deall yn well y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, a risgiau/blaenoriaethau lleol gan gynnwys risgiau mewn perthynas ag adeiladu/adeiladau, dŵr, a ffyrdd. Mae'r cynlluniau hyn hefyd yn amlgu gweithgareddau a mentrau cymunedol sy'n cael eu cynllunio a'u darparu'n lleol ac yn cefnogi gwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC).

Yn y Cynllun Gwella hwn, rydym yn darparu trosolwg o'r ardal yr ydym yn ei gwasanaethu, gan amlgu rhai o'r heriau penodol a wynebir yno a sut maent yn effeithio ar ein cymunedau. Mae hwn yn dangos y ddolen gyswllt rhwng ein gorsafoddd â'n blaenoriaethau strategol, sy'n gysylltiedig â'n gwaith gydag awdurdodau unedol a chyrrff cyd-drefnu, gan gynnwys byrddau gwasanaeth cyhoeddus lleol.

EIN BYRDDAU GWASANAETH CYHOEDDUS

Mae'r BGC yn adrodd yn flynyddol ar eu cynnydd i ddangos sut mae cyfrifoldebau o dan DLI CD yn cael eu cyflawni. Maent yn paratoi ac yn cyhoeddi cynlluniau llesiant lleol sy'n amlgu'r newid sydd ei angen ym mhob rhanbarth daeryddol a pha gamau sy'n cael eu rhoi ar waith i gyflawni hyn.

Er mwyn sicrhau ein bod yn aelodau effeithiol o'r BGC, rydym bob amser yn ystyried goblygiadau hirdymor ein gweithredoedd. Rydym yn ceisio cydweithio a mabwysiadu dull integredig i ddarparu gwasanaeth a fydd yn helpu pobl i deimlo'n ddiogel ac yn iach yn eu bywydau bob dydd.

Mae ein gwaith gyda'r BGC yn dangos ein hymrwymiad i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, ynghyd ag egwyddor datblygu cynaliadwy DLI CD, saith nod DLI CD a chymhwyso'r pum ffordd o weithio.

**DEDDF PARTNERIAETH GYMDEITHASOL A CHAFFAEL CYHOEDDUS (CYMRU) 2023**

Mae'r Ddeddf yn cyfarwyddo cyrrff cyhoeddus yng Nghymru sydd o fewn cwmpas y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol i fframwaith sy'n ategu DLI CD a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn ei phedair egwyddor allweddol:

Partneriaeth gymdeithasol – ymgynghori a gweithio gydag undebau llafur neu, lle nad oes undeb llafur cydnabyddedig, cynrychiolwyr staff eraill wrth osod amcanion llesiant a gwneud penderfyniadau strategol o ran eu cyflawni.

Caffael sy'n gymdeithasol gyfrifol - mae'n gofyn am gyhoeddi strategaeth gaffael sy'n sicrhau ystyriaeth o ffactorau heblaw cost gwariant cyhoeddus, gan gynnwys rheoli'r gadwyn gyflenwi.

gwaith a chyfleustodau mewn ffordd sy'n sicrhau gwerth am arian ar sail oes gyfan o ran creu buddion i'r sefydliad, a hefyd i gymdeithas a'r economi, wrth leihau difrod i'r amgylchedd"



Gwaith teg – mae rhoi 'gwaith teg' yn lle 'gwaith gweddus' yn nod llesiant Cymru Ffyniannus

yn canolbwyntio ar ddarparu amodau sy'n galluogi amgylchedd iach, cynhwysol sy'n talu sylw i lesiant.

Datblygu cynaliadwy – asesu sut mae effaith penderfyniadau a wneir heddiw yn effeithio ar genedlaethau'r dyfodol.

Cydnabyddir y cyfrifoldebau hyn yn ein prosesau a'n cynlluniau presennol. Rydym wedi parhau i adeiladu ar berthnasoddd cadarnhaol ag undebau llafur drwy gynnal sesiynau ymgysylltu a chyfarfodydd rheolaidd gyda Chomisiynwyr ac uwch arweinwyr. Rydym wedi ymrwymo i gyflawni argymhelliad yr Adolygiad Diwylliant Annibynnol, gan ganolbwyntio'n benodol ar lesiant.

Mae Strategaeth Gaffael Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru 2022-2027 yn diffinio caffael cynaliadwy fel: "y broses lle mae sefydliadau'n diwallu eu hanghenion am nwyddau, gwasanaethau,

Adolygiad Annibynnol i Ddiwylliant a'r Rhaglen Drawsnewid

Mae'r Adolygiad Annibynnol i Ddiwylliant, a ysgrifennwyd gan Fenella Morris CB ac a gyhoeddwyd yn Ionawr 2024, wedi bod yn gatalydd ar gyfer newid sylweddol i'r Gwasanaeth, gan gynnwys trosglwyddo cyfrifoldebau llywodraethu i Fwrdd Comisiynwyr a benodwyd gan Lywodraeth Cymru a myfyrto ar dybiaethau ac arferion allweddol a'u hadolygu.

O fewn cwmpas y cynllun hwn, sy'n adolygu gweithgareddau yn 2023-2024 ac yn edrych ymlaen at 2025-2026, rydym yn parhau i asesu'r Adolygiad a sut y byddwn yn mynd i'r afael â'i ganfyddiadau. Mae hyn yn digwydd yng nghyd-destun heriau ehangach i'r sector tân ac achub a'r gwasanaethau brys. Roedd cyhoeddiadau diweddar yn cynnwys:

- **Seinio'r Larwm:** Llywodraethu Gwasanaethau Tân ac Achub (Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol Senedd Cymru, Mehefin 2024)
- **Safonau ymddygiad:** Ymdrin â chamymddwyn yn y gwasanaethau tân ac achub (HMICFRS, Awst 2024)
- **Llywodraethu Awdurdodau Tân ac Achub** (Archwiliad Cymru, Medi 2024)

O ystyried yr 82 o argymhellion a wnaed gan Fenella Morris CB yr aethpwyd i'r afael â hwy yn ein cynllun gweithredu cychwynnol yn ogystal â chyfeiriad o'r adroddiadau hyn ac adroddiadau eraill, cydnabuom fod hyn wedi arwain at restr helaeth o faterion. Mae hyn wedi galw am gydgyssylltu ein hymagwedd i sicrhau nad ydym yn colli golwg ar y newidiadau y mae'r Adolygiad Annibynnol i Ddiwylliant yn galw amdanynt ac yn cyflawni newid ehangach yn effeithiol ac yn effeithlon.



Rydym felly wedi lansio'r rhaglen **Camu Ymlaen** – cyfres o brosiectau cydlynol i sicrhau bod y Gwasanaeth yn barod i fodloni gofynion a heriau'r dyfodol. Wrth galon y rhaglen mae camau gweithredu â ffocws a fydd yn cynorthwyo, cefnogi a datblygu ein staff:



CAMU YMLAEN

- Llywodraethu a strategaeth
- Arweinyddiaeth
- Cyfathrebu ac ymgysylltu
- Moeseg, gwerthoedd ac ymddygiad
- Polisiau a gweithdrefnau
- Rheoli talent
- Amrywiaeth, Cynhwysiant, Cydlyniant a Thegwch (ACCTh)
- Trawsnewid digidol
- Amgylchedd diogel a chadarnhaol

Ynghyd â'r prosiectau hyn, mae gwaith pellach yn ymwneud â chylch gorchwyl y Comisiynwyr wedi parhau gan gynnwys cwblhau'r adolygiad o achosion achwyn a phrosiectau sy'n mynd i'r afael â gweithrediad gweithredol adolygiadau thematig.

Rydym yn cynnal trafodaethau rheolaidd gyda Llywodraeth Cymru ar gynnydd ac yn cael cymorth o bob rhan o'r sector, gan gynnwys GTAau eraill, CCPT a'r sector cyhoeddus ehangach. Er mwyn llywio gwelliant hirdymor, rydym wedi gofyn am asesiad annibynnol o'r Gwasanaeth gan HMICFRS i ategu'r adolygiad i ddiwylliant. Bydd hyn yn darparu'r sylfaen ar gyfer cynllunio strategol a blaenoriaethu yn y dyfodol, gyda'r bwriad:

Creu gwasanaeth tân ac achub diogel, modern yn Ne Cymru a sicrhau bod pawb yn cael eu trin ag urddas a pharch, heb wahaniaethu, bwlio, aflonyddu ac ymddygiad amhriodol.

Ategir ein gwaith i gyflawni'r nod hwn gan God Moeseg Graidd CCPT, sef set o bum egwyddor foesegol sy'n darparu sail ar gyfer hybu ymddygiad da a herio ymddygiad amhriodol. Disgwylir i bawb ym mhob gwasanaeth tân ac achub ddilyn y Cod ac rydym yn gwreiddio ei egwyddorion ym mhob agwedd ar ein gwaith a'n rhyngweithiadau.

Adleisir yr egwyddorion hyn yn ein rhaglen drawsnewid gyda phrosiectau a fydd yn hybu dealltwriaeth ac atebolrwydd. Drwy sicrhau ein bod yn gweithredu yn unol â'r Cod, byddwn yn sicrhau rhagoriaeth yr hyn a wnawn yn ogystal a'r ffordd rydym yn ei wneud



Ymateb i adolygiadau thematig ac Archwilio Cymru



Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru: Dysgu o Grenfell

DYSGU O GRENPELL (2021)

Adroddiadau ar gamau a gymerwyd gan y tri gwasanaeth tân ac achub Cymreig yn erbyn yr argymhellion a gynhwyswyd o fewn adroddiad Cam 1 Ymchwiliad Tŵr Grenfell (YTG).

DATBLYGWYD SIANEL AIRWAVE

SEFYDLWYD GWEITHGOR CGB

HYFFORDDIANT SGILIAU ARBENIGOL

EIN CYNNYDD:

Rydym yn parhau i wneud cynnydd yn erbyn yr argymhellion gan gynnwys hyfforddiant sgiliau arbenigol i staff a datblygu cydweithrediad rhwng cynllun gweithredu gwasanaethau brys, Gwybodaeth Risg Safle-benodol (GRSB), cynlluniau tactegol gweithredol (CTG), cynlluniau presenoldeb cychwynnol a chynlluniau ymateb i leoliad sydd ar gael i griwiau ar beiriannau tân.

Mae sianel radio gwacáu bwrpasol wedi'i datblygu, sy'n golygu y gall ein Hadrannau Cyd-reoli Tân (JFC) erbyn hyn siarad yn uniongyrchol â phen y bont, ardal ddiogel y tu mewn i adeilad lle gall diffoddwyr tân weithredu'n ddiogel yn ystod digwyddiad, gan greu cyswllt sengl ar gyfer cyfathrebu. Mae'r Gweithgor Cynnydd Adeiladau Tyrau Uchel (GCATU) wedi bod yn profi ac yn perffeithio'r cyswllt cyfathrebu ers mis Hydref 2023. Mae rhaglen ymarfer barhaus ar gyfer hyn yn cael ei chyflwyno i bob Criw Llawn Amser, Rheolwyr Tactegol, a Gweithredwyr Rheoli Tân. Gan fod yr ystafellau Cyd-reoli Tân yn cael ei rannu gyda GTA Canolbarth a Gorllewin Cymru, cytunwyd y bydd y ddau yn defnyddio'r strategaeth cyfathrebu gwacáu i osgoi unrhyw ddryswch. Mae fersiwn electronig o'r cyfathrebiad gwacáu uniongyrchol hwn yn cael ei archwilio a'i ddatblygu ar hyn o bryd.



GALL EIN HADRAN CYD-REOLI TÂN (JFC) ERBYN HYN SIARAD YN UNIONGYRCHOL Â PHEN Y BONT GAN GREU CYSWLLT SENGL AR GYFER CYFATHREBU.

Mae llyfryn Canllawiau Goroesi Bywyd (CGB) a chynlluniau wedi'u datblygu ac maent ar gael i bob injan dân. Mae'r Ystafellau Cyd-reoli Tân hefyd wedi sefydlu gweithgor CGB i gydlyn eu hymateb gyda GTACGC.

Ym mis Mai 2024, adolygwyd ein sefyllfa gyfredol, a'n gweithdrefnau, protocolau ac arferion cyfredol yn erbyn argymhellion ymateb y Cyngor Penaethiaid Tân Cenedlaethol (CCPT) i Ymchwiliad Grenfell a'r adolygiad thematig hwn. Mae ein HRWG wedi diwygio eu cynllun gweithredu yn unol â hynny a rhagwelir y bydd yr holl gamau gweithredu yn erbyn argymhellion cam 1 wedi'u cwblhau erbyn mis Ebrill 2025.



Adolygiad Thematig o hyfforddiant gweithredol o fewn Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru

Hydref 2022

HYFFORDDIANT GWEITHREDOL Y GTA (2022)

Yn ystyried arferion gwaith cyfredol gorsafodd a'r System Dyletswydd Wrth Gefn (SDd WG) a sut mae'r rhain yn effeithio ar yr amser sydd ar gael ar gyfer hyfforddiant ac ymarfer cynnal sgiliau, gan ganolbwyntio ar sgiliau craidd ac ychwanegol i ddiffoddwyr tân a rheolwyr goruchwylio.

SEFYDLWYD GRŴP DARPARU HYFFORDDIANT

DADANSODDIAD O HYFFORDDIANT

DATBLYGU SESIYNAU MEICRO-DDYSGU



EIN CYNNYDD:

Mae Grŵp Darparu Hyfforddiant Adolygiad Thematig wedi'i sefydlu sy'n cynnwys arbenigwyr pwnc o bob rhan o'r Gwasanaeth i gyflawni'r saith argymhelliad a amlinellwyd yn Adolygiad Thematig Hyfforddiant Gweithredol Cyngorydd Tân Cymru.

Mae'r grŵp ar hyn o bryd yn canolbwyntio eu hymdrechion i gasglu'r data sydd ei angen i gynnal y dadansoddiad anghyfyngedig o hyfforddiant mewn perthynas â chaffael a chynnal naw cymhwysedd craidd rôl Diffoddwr Tân a'r cymhwyseddau ychwanegol yn ymwneud â'r setiau sgiliau arbenigol y mae GTADC yn eu darparu, megis Bariatrig, Achub gyda rhaff ac Achub o Ddŵr, i enwi ond ychydig.

Mae'r Adran Hyfforddiant eisoes wedi cwblhau'n rhannol weithgareddau sy'n cyfrannu at yr argymhellion sy'n weddill megis datblygu cyfres o sesiynau meicro-ddysgu, a bydd y gwaith hwn yn parhau ar yr un pryd.

Ar ôl cwblhau'r dadansoddiad anghyfyngedig, ei adolygu a'i gyhoeddi, bydd y grŵp yn canolbwyntio ar yr argymhellion sy'n weddill, a'r dyddiad cwblhau disgwylidig yw Ebrill 2025.



EHANGU RÔL DIFFODDWYR TÂN YNG NGHYMURU (2021)

Ystyried y fanyleb amlinellol a ddatblygwyd gan Weithgor Ehangu'r Rôl, a gnullwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2020, mae'r adolygiad yn ystyried gallu'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru i wneud gwaith ychwanegol sy'n deillio o ehangu'r rôl, yn ddiogel a heb niweidio swyddogaethau craidd.

SEFYDLU BWRDD DARPARU

PENNU CYNLLUN GWEITHREDU

EIN CYNNYDD:

Mae bwrdd cyflawni wedi'i sefydlu gan gynnwys aelodaeth o drawstoriad o'r Gwasanaeth, gan gynnwys cynrychiolaeth o Undeb y Brigadau Tân (UBT). Gofynnir i arbenigwyr pwnc gefnogi'r grŵp lle bo angen a helpu i lywio eu penderfyniadau a chynnal ymgysylltiad gyda rhanddeiliaid, sefydlir grwpiau ffocws neu is-grwpiau ar gyfer agweddau penodol. Mae strwythur, cyfrifoldebau a phrosesau adrodd y Bwrdd Cyflawni wedi'u hamlinellu mewn dogfen gwmpasu a byddant yn cael eu cyfathrebu drwy'r Gwasanaeth i gyd ar ôl cael eu cymeradwyo.

Mae'r Bwrdd Cyflawni yn casglu data i gefnogi cynlluniau gweithredu ac adolygu cynnydd. Mae data'n cynnwys gwybodaeth gan GTA eraill, canllawiau neu ddeddfwriaeth berthnasol, yn ogystal â dadansoddiad o hyfforddiant ymarfer corff a gweithgaredd lleihau risg GTADC. Bydd adolygu'r data hwn ac adborth rhanddeiliaid yn galluogi cwblhau a chyhoeddi'r cynllun gweithredu.



ARCHWILIO CYMRU: LARYMAU TÂN FFUG

Yn adolygu effaith galwadau tân ffug ar berfformiad GTADC ac yn argymhell archwilio dulliau eraill, gan gryfhau'r defnydd o ddata i graffu ar weithgarwch.

HYFFORDDIANT PARHAUS

GWERTHUSO NEWID

EIN CYNNYDD:

Mae'r galwadau diangen hyn yn digwydd pan fydd system synhwyro tân awtomatig (LTA) yn cael ei seinio ac yn dilyn ymchwiliad gan y GTA canfyddir nad oes tân yn bod. Mae adroddiad cynhwysfawr sy'n manylu ar effaith arwyddion tân diangen (ATD) ar y Gwasanaeth, ymateb i LTA gan GTA eraill, a chyflwyno dadansoddiadau risg a buddion y newid arfaethedig i'n Bwrdd Comisiynwyr a chael cytundeb y Bwrdd hwnnw. Mae ein tîm Diogelwch Tân i Fusnesau (DTB) yn gweithio gyda phobl ar draws y Gwasanaeth i gwblhau'r cynllun cyfathrebu er mwyn hysbysu'r cyhoedd, busnesau a gwasanaethau eraill, a fydd yn cael cyfle i fynychu sesiynau ymgysylltu pwrpasol. Mae hyfforddiant a chyfathrebu ar gyfer staff yn barhaus. Mae amserlen ar gyfer monitro a gwerthuso effaith y newid ar waith, er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y mwyaf o fuddion wrth leihau risg.

Mae manylion llawn y newid, y buddion a chwestiynau cyffredin ar gael drwy law'r cod QR hwn.

www.decmru-tan.gov.uk/eich-diogelwch-a-lles/mewn-busnes/larymau-tan-awtomatig



Amdanom ni: ein cymunedau

Mae'r adran hon yn disgrifio ein cymunedau ac yn ystyried eu hanghenion a'u risgiau penodol. Ar gyfer y trosolwg hwn rydym wedi ystyried ystod o ffynonellau data gan gynnwys:

- Data Cyfrifiad 2021.
- Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALI C) sy'n mesur amddifadedd cymharol, gan osod yr 1,909 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA – ardaloedd daearyddol o tua 1,500 o bobl) yng Nghymru o'r mwyaf i'r lleiaf difreintiedig.
- Asesiad o'r effaith ar iechyd 'Newid yn yr Hinsawdd yng Nghymru' Sefydliad Iechyd y Byd (cyhoeddwyd Gorffennaf 2023) sy'n archwilio effaith ehangach newid yn yr hinsawdd yng Nghymru.
- Llesiant Cymru Llywodraeth Cymru: asesiad 2023 o gynnydd yn erbyn y saith nod llesiant cenedlaethol (cyhoeddwyd Medi 2023).
- Asesiadau Llesiant Lleol BGC.



Golwg panoramig o'r awyr gyda'r dydd o Frynbuga yn ne Cymru, y DU

Rydym yn gwasanaethu 10 awdurdod unedol, gan gwmpasu ardal o tua 2,800 cilometr sgwâr (1,081 milltir sgwâr) gan gynnwys 3.7 cilometr sgwâr (1.4 milltir sgwâr) o ddŵr mewndirol. Mae'r ardal yn gymysgedd o gymunedau trefol, gan gynnwys dinasoedd Caerdydd a Chasnewydd, yn ogystal â chymoedd mawr, trefi ac ardaloedd gwledig sylweddol.

POBLOGAETH

Gyda phoblogaeth breswyl o dros 1.5 miliwn o bobl, rydym yn amddiffyn hanner poblogaeth Cymru. Er y bu cynnydd cyffredinol o 2.9% yn ein poblogaeth rhwng 2011 a 2021, cofnododd dau awdurdod unedol ostyngiad (Blaenau Gwent o -4.2% a Chaerffili o -1.6%). Roedd y cynnydd mwyaf yn y boblogaeth yng Nghasnewydd (+9.5%) ac yna Caerdydd (+4.7%), Pen-y-bont ar Ogwr (+4.5%) a Bro Morgannwg (+4.4%).

Mae ein cymunedau ymhlith y mwyaf amrywiol yng Nghymru. Mae ffigurau diweddaraf y Cyfrifiad yn nodi bod 8.6% o'n poblogaeth yn 2021 wedi nodi eu bod yn perthyn i grŵp ethnig heblaw Gwyn o gymharu â 6.2% ar gyfer Cymru gyfan. Mae hyn yn amrywio ar draws yr ardal gyda'r poblogaethau mwyaf amrywiol yn byw yng Nghaerdydd a Chasnewydd.

POBLOGAETH SY'N HENEIDDIO

Mae pob ardal wedi gweld cynnydd yn y grŵp oedran 65+, gyda Sir Fynwy (+26.3%) a Bro Morgannwg (+25.7%) yn cofnodi'r newid mwyaf, yn ogystal â'r cyfrannau mwyaf o gyfanswm y boblogaeth, sef 25.9% a 22. % yn eu trefn. Mae hyn yn cyferbynnu â 14.5% o boblogaeth Caerdydd a 17.0% o boblogaeth Casnewydd dros 65 oed.



Archwiliad diogelwch tân yn y cartref a gynhaliwyd gan GTADC

POBLOGAETH SY'N HENEIDDIO

RISG

Bydd twf arafach yn y boblogaeth a phoblogaeth sy'n heneiddio yn gweld mwy o alw am wasanaethau cyhoeddus. Disgwylir i nifer yr aelwydydd leihau gyda chynnydd mewn aelwydydd un person, a nodir fel risg i'r henoed a'r rhai â chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar symudedd.

YMATEB

Disgwylir i'r galw am ymyriadau lleihau risg gynyddu yn seiliedig ar ein gwerthusiad o risg gymunedol ac mae hyn yn ysgogi ein ffocws ar ddatblygu partneriaethau strategol i helpu i dargedu gweithgareddau atal. Felly rydym yn targedu ein gwaith atal ac ymyriadau gwirio diogelwch yn y cartref ar gyfer y ddemograffeg hon, gan geisio ymgysylltu ag unigolion sy dros 65 oed, neu aelwydydd un rhiant. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid i nodi a chefnogi unigolion bregus o fewn ein cymunedau.

RISG

Gan fod y boblogaeth oedran gweithio'n tyfu'n arafach, mae'n bosibl y byddwn yn wynebu heriau cynyddol o ran cynllunio ein gweithlu. Gall newidiadau diweddar yn y farchnad gyflogaeth megis cyfraddau diweithdra isel a lefelau uchel o swyddi gwag ddod i'r amlwg fel patrymau tymor hwy a'r her i ni, fel cyflogwyr eraill fydd cael ein cydnabod fel cyflogwr o ddewis.

YMATEB

Rhaid i ni wneud popeth o fewn ein gallu i fod yn gyflogwr o ddewis o ran denu a chadw gweithwyr, megis cyflogau cystadleuol, buddion a chyfleoedd datblygu gyrfa. Byddwn yn sicrhau proses ymuno effeithiol i roi'r wybodaeth a'r adnoddau sydd eu hangen ar weithwyr newydd i lwyddo.

STATWS ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL

Er bod Cymru'n cyd-fynd â gweddill y Deyrnas Unedig, bu twf incwm gwirioneddol a chynhyrchiant gwan yn gyffredinol (Adroddiad Llesiant Cymru, 2023). Bydd hyn yn parhau i gael ei effeithio gan yr argyfwng costau byw presennol, gan gynnwys chwyddiant uchel ac arafu economaidd parhaus.

Dangosodd adroddiad cyfrifiad 2021 fod pedwar o'r 10 awdurdod lleol gorau yng Nghymru a Lloegr â'r cyfraddau uchaf o drigolion economaidd anweithgar, salwch hirdymor neu drigolion anabl 16-64 oed yn ardal y Gwasanaeth: Blaenau Gwent 36.1%, Merthyr Tudful 34%, Caerffili 32.2% a Rhondda Cynon Taf 30.6%.

Mae'r canfyddiadau hyn yn cael eu hadleisio gan MALIC 2005 sy'n dangos bod bron i chwarter yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) yng Nghasnewydd a Merthyr Tudful yn y 10% mwyaf difreintiedig ac ym Mlaenau Gwent, mae 85% o ACEHI yn y 50% mwyaf difreintiedig. Gan fod MALIC yn nodi bod gan Sir Fynwy dim ACEHI sydd fwyaf difreintiedig, mae'n amlygu'r gwahaniaeth rhwng ein cymunedau o fewn ein Gwasanaeth a'r angen am amrywiaeth o ran ein hymagwedd.



Ardal lesiant Gorsaf Dàn ac Achub Cwm Ogwr

RISG:

Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn cynyddu risg, gan effeithio'n aml ar fynediad at wasanaethau i'r rhai sydd â'r gallu lleiaf o ran hydwythdedd ar gyfer amgylchiadau newidiol.

YMATEB:

Rydym yn ymgysylltu â'n cymunedau a phartneriaid lleol i ddatblygu cudd-wybodaeth ac atgyfeiriadau ar gyfer y rhai yr ystyrir eu bod yn wynebu'r risg fwyaf o dân. Rydym yn cynnal amrywiaeth o ymgysylltiadau cymunedol, gan gynnwys digwyddiadau ehangach, ymyriadau cymunedol wedi'u targedu, ac ymweliadau Gwiriadau Diogelwch Cartref unigol sy'n cynnwys asesiad o risg tân yn y cartref sy'n berson-ganolog.

Mae gwell defnydd o ddata yn rhan annatod o fonitro a gwerthuso anghenion ein cymunedau a'n perfformiad ein hunain ill dau. Mae hyn wedi'i nodi mewn archwiliadau diweddar. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth ac mae hyn yn cynnwys mecanweithiau cadarn o ran rhannu data yr ydym yn eu datblygu i ychwanegu gwerth at ein data ein hunain a chyfrannu at waith pobl eraill.

RISK:

Roedd pobl ardaloedd mwy difreintiedig Cymru yn fwy tebygol i adrodd sgorau gwaeth yn erbyn y pedwar dangosydd llesiant meddwl yn yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a gynhaliwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG). Er bod Caerdydd yn y trydydd safle o blith awdurdodau unedol Cymru ar gyfer llesiant meddwl oedolion a'i bod wedi gwella o fwy na chyfartaledd

Cymru ers 2016-2017, mae lechyd Cyhoeddus Cymru yn adrodd bod Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf yn is na chyfartaledd Cymru ar gyfer lles meddwl a hwythau sydd â'r lefelau uchaf o amddifadedd yn ardal BGC Cwm Taf Morgannwg (CTM).

YMATEB:

Fel Gwasanaeth, rydym yn sefydlu ardaloedd llesiant i bob safle a chynyddu ein manau gwyrdd ar orsafoedd ar gyfer defnydd ein staff a'n cymunedau lleol. Rydym yn cymryd rhan mewn 'Diwrnod Amser i Siarad', sef diwrnod sgwrsio cenedlaethol iechyd meddwl, ac yn ystyried bod iechyd meddwl cadarnhaol ein staff yn bwysig.

RISG:

Mae pobl ag iechyd meddwl gwael ddwywaith yn fwy tebygol i ysmegu. Bu cynnydd hefyd yn y defnydd o e-sigarennau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, sy'n risg tân achos batris lithiwm.

YMATEB:

Rydym yn parhau i gynnig cyngor ar roi'r gorau i ysmegu a diogelwch tân ychwanegol yn y cartref i ysmygwyr.

Nodir ein hymateb i fatris lithiwm-ion ar [dudalen 24](#) o'r ddogfen hon.

RISG:

Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg (CTM), Caerdydd, a Bro Morgannwg i gyd yn nodi bydd dementia'n cynyddu'n sylweddol o fewn yr 20 mlynedd nesaf.

YMATEB:

Fel Gwasanaeth, rydym wedi darparu hyfforddiant penodol am ymwybyddiaeth dementia i'n criwiau gorsaf ac mae gan

ein Hymarferwyr Diogelwch Cartref hyfforddiant ychwanegol ar gyfer achosion cymhleth. Rydym hefyd yn cefnogi wythnos Ymwybyddiaeth Dementia gan ffurfio partneriaethau gyda grwpiau dementia lleol.

RISG:

Mae gordewdra yn cael ei nodi fel prif bryder iechyd cyhoeddus yng Nghymru wrth i'r niferoedd gynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn ar gyfer plant ac oedolion. Mae tlodi a chost bwyd wedi bod yn rhwystrau i ddietau iach yng Nghymru ers cyn 2020 ac mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar hyn wrth i dywydd eithafol amharu ar gynhyrchu bwyd ac effeithio ar ansawdd pridd gwaeth ar gynnyrch cynyddu.

YMATEB:

Rydym yn parhau i ddatblygu adnoddau hyfforddi ac offer i ddarparu ymateb effeithiol i anafusion bariatrig, gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG), gan ein bod wedi gweld mwy o alw am ein cymorth. Mae gwaith yn parhau i asesu'r effaith y galw cynyddol i gynorthwyo asiantaethau eraill ar ein gwasanaethau.

“ FEL GWASANAETH, RYDYM YN SEFYDLU ARDALOEDD LLESIANT I BOB SAFLE A CHYNYDDU EIN MANNAU GWYRDD AR ORSAFOEDD.



ADDYSG A SGILIAU

Daw'r dylanwad mwyaf ar gyflogaeth ac incwm o sgiliau a chymwysterau. Yn ein hardal ni, mae tair prifysgol: Prifysgol Caerdydd, Prifysgol De Cymru a Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd, yn ogystal â phum coleg addysg bellach sydd â safleoedd lluosol.

RISG:

Mae gan wyth o'n 10 awdurdod unedol boblogaethau sydd â'r 10 cyfradd cymhwyster isaf yng Nghymru.

YMATEB:

Mae ein timau leuenctid a Diogelwch Cymunedol wedi datblygu cyrsiau a mentrau sy'n cefnogi pobl ifanc i ddatblygu sgiliau a phrofiad, gan gynnwys ein rhaglen Cadetiaid Tân.

Rydym hefyd yn darparu cyngor ar gadw'n ddiogel mewn llety rhent a neuaddau myfyrwyr. Ar gyfer y 616 awdurdod addysg lleol (AALI) ar draws 627 o safleoedd, mae gennym raglen o ymweliadau ysgol i godi ymwybyddiaeth o risgiau amgylcheddol ac ymddygiadol sy'n gysylltiedig â thân, dŵr a diogelwch ar y ffyrdd. Darperir y sesiynau hyn gan griwiau lleol ac arbenigwyr lleihau risg pwrpasol. Cynhelir hefyd Aseidiadau Perygl Tanau Bwriadol i Ysgolion hefyd yn cael eu cynnal achos y risg sy'n gysylltiedig â safleoedd ysgol. Mae'r gweithgarwch hwn yn helpu i feithrin partneriaethau a chydweithrediad lleol.



Cadetiaid Tân yn yr Her Cadetiaid Tân a gynhaliwyd ynghynt eleni yng Nghanolfan Hyfforddi a Datblygu Porth Caerdydd.



Cadetiaid Tân yn datblygu sgiliau yn ystod eu 'noson ymarfer' yng Ngorsaf Tonypany.

AMGYLCHEDDOL

Mae effaith newid hinsawdd wedi dod i'r amlwg yn y blynyddoedd diwethaf gyda chynnydd mewn tanau gwyllt yn ystod cyfnodau hir o dywydd poeth a sych. Fel arfer rydym yn gweld cynnydd mewn tanau gwyllt yn gynnar yn y gwanwyn ond erbyn hyn gwelwn ail frig yn ystod yr haf gan arwain at gynnydd yn nifer y tanau a fynychwyd gan greu galwad cynyddol ar ein criwiau.

RISG:

Mae'r cyfraddau uchaf o danau gwyllt yn digwydd yng nghymoedd Cymru.

YMATEB:

Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth â chymunedau, gan eu haddysgu am y peryglon a'r difrod y mae tanau gwyllt yn eu hachosi, yn ogystal â chysylltu â rheolwyr tir i leihau risg. Mae ein harbenigedd yn cael ei gydnabod ledled y byd, gyda phersonél yn cael eu defnyddio i gefnogi cydweithwyr Ewropeaidd ac ymgysylltu ag arbenigwyr rhyngwladol mewn cynadleddau a digwyddiadau. Rydym yn cefnogi datblygu hyfforddiant tanau gwyllt Cymru gyfan, gan gydweithio â'r GTA a phartneriaid eraill gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

Mae gan ddigwyddiadau tywydd eithafol y potensial i esgor ar fwy o ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â dŵr, gyda rhagolygon newid yn yr hinsawdd yn rhagweld cynnydd mewn glaw trwm yn yr haf a fydd yn arwain at lifogydd dŵr wyneb, yn ogystal â stormydd gaeafol amlach.

RISG:

Er bod ardaloedd trefol yn fwy agored i effeithiau llifogydd, mae lechyd Cyhoeddus Cymru yn awgrymu y bydd cymunedau gwledig yn debygol o gael cyfran fawr o lifogydd a thanau gwyllt gan eu bod yn cyfrif am 82% o arwynebedd tir Cymru.

YMATEB:

Rydym yn gweithio'n agos gyda phartneriaid i nodi'r ardaloedd sydd fwyaf mewn perygl, darparu ymwybyddiaeth atal i bobl leol, a dyfeisio strategaethau aml-asiantaeth rhag llifogydd.

Mae ein Strategaeth Achub o Ddŵr 2021-2025 yn brydlon, ac mae'r cynnydd a wnaed yn cynnwys:

- Rydym ar fin cwblhau hyfforddi ein holl orsafoedd Dyletswydd Gyflawn i Fath D; sy'n golygu y bydd gennym y gallu i achub pobl sydd â thimau sy'n gwisgo offer gwarchod personol (OGP) priodol a'r gallu i achub gyda chymorth digyswllt.
- Mae ein holl orsafoedd Tendr Achub wedi cael eu huwchraddio i Fath C; sy'n golygu eu bod yn ddim sy'n gallu perfformio technegau achub dŵr cyflym i achub pobl.
- Cynhelir rhaglen i dreialu OGP yng Ngorsaf Tân Caerdydd Canolog, gyda'r bwriad o sicrhau y bydd gan bob technegydd achub dŵr a llifogydd (Math C) OGP eu hunain erbyn 2025.

- Rydym wedi derbyn cwch newydd a fydd yn gwasanaethu Bae Caerdydd a leolir ar y pontŵn sych yng ngheg Bae Caerdydd ac wedi'i griwio gan Orsaf Tân Penarth.
- Mae holl injans ein cychod ymateb brys wedi'u huwchraddio i 40nm i sicrhau bod gennym y gallu i achub yn yr amodau llifogydd mwyaf heriol. Lleolir yr asedau hyn yng Ngorsaf Gwasanaethau Brys y Barri, Gorsaf Tân Malpas a Gorsaf Tân Glynebwy.

Mae ein tîm Ffyrdd a Dŵr yn gweithio'n agos gyda'n tîm Ystadegau gan ddefnyddio data i dargedu'n strategol y cymunedau sydd fwyaf mewn perygl a sicrhau bod ein hadnoddau'n cael eu dosbarthu'n briodol. Rydym yn gweithio'n barhaus gyda Diogelwch Dŵr Cymru i ledaenu gwybodaeth am ddiogelwch dŵr yn ogystal â chael y wybodaeth ddiweddaraf am y canllawiau diogelwch dŵr cyfredol. Rydym hefyd yn cefnogi Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub (RNLI) yn eu hymgyrchoedd a'u gwaith i hybu diogelwch dŵr.

TRAFNIDIAETH A THEITHIO

Mae De-ddwyrain Cymru yn cynnwys dros 9,100 cilometr (5,650 milltir) o ffyrdd, gan gynnwys yr A470, A465, A40, A449 a'r M4, a symudodd 837,000 o deithwyr drwy Faes Awyr Caerdydd yn ystod 2023.

Mae gan Lywodraeth Cymru hefyd uchelgais i gael sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030. Mae ansawdd aer yn cael ei effeithio gan newid yn yr hinsawdd ac mae llygredd aer yn un o achosion cydnabyddedig afiechyd a marwolaethau y gellir eu hosgoi. Mae trafniadaeth tanwydd petrol a disel yn cyfrannu'n fawr at lygredd aer yn ein trefi a'n dinasoedd.

RISG:

Mae llawer o ddulliau trafniadaeth cyfredol yn cael effaith negyddol ar yr amgylchedd ac iechyd, gan arwain at archwilio opsiynau amgen, megis teithio llesol a cherbydau trydan a hydrogen.

YMATEB:

Rydym yn parhau i adolygu ein cynlluniau ein hunain i leihau ein hól troed carbon, gan gynnwys ein defnydd o gerbydau trydan ac rydym wedi ymrwymo i Siarteri Teithio lach sector cyhoeddus Caerdydd, Bro Morgannwg a Gwent i ddangos ein hymrwymiad i deithio mwy cynaliadwy.

RISG:

Mae'r defnydd cynyddol o fatris lithiwm-ion mewn cynhyrchion gan gynnwys tegau ac offer pŵer llaw ac E-sgwteri a cherbydau trydan wedi'i nodi fel risg sy'n dod i'r amlwg. Mae hon yn ffynhonnell ynni diogel os caiff

ei thrin yn ofalus, ond os bydd batris yn cael eu difrodi neu'n gorboethi wrth eu defnyddio neu wrth wefru, mae risg o dân. Bu nifer o ddigwyddiadau hefyd yn lleol ac yn genedlaethol yn ymwneud â gwaredu cynhyrchion lithiwm-ion, gan achosi tanau ar lorïau sbwriel ac mewn safleoedd gwaredu gwastraff.

YMATEB:

Rydym yn cysylltu â'r GTA eraill i ddeall y risg hon yn well a sut i ymateb, ac mae hyn wedi'i gydlynu gan weithgor gyda chynrychiolwyr o bob rhan o'r Gwasanaeth. Rydym hefyd wedi cyhoeddi canllawiau ar ddefnyddio, storio a gwaredu batris lithiwm-ion yn ddiogel. Gwahoddwyd ein tîm Hyfforddi a Datblygu i ddarparu cyrsiau ar risgiau tân a damweiniau traffig ffordd yn cynnwys cerbydau trydan a hybrid ar gyfer sefydliadau partner gan gynnwys Heddlu De Cymru, Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, Traffig Cymru a sefydliadau adfer cerbydau.

“
MAE GAN
LYWODRAETH
CYMRU HEFYD
UCHELGAIS I
Gael Sector
CYHOEDDUS
CARBON
NIWTRAL
ERBYN 2030.

**DIWYLLIANNOL**

Mae gan ein rhanbarth dreftadaeth gyfoethog a esgorodd ar yr amgylchedd, yn naturiol ac o waith dyn ill dau, yr ydym erbyn hyn yn ei fwynhau. Mae Dyffryn Gwy wedi'i ddynodi'n Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ac mae tirwedd ddiwydiannol Blaenafon yn cael ei chydabod am y dystiolaeth yno o'r Chwyldro Diwydiannol Prydeinig. Mae arfordir Morgannwg o Aberddawan i Borthcawl yn Arfordir Treftadaeth dynodedig a dynodwyd Aber Afon Hafren yn Ardal Cadwraeth Arbennig yn 2009.

RISK:

Mae yna 690 o Henebion Cofrestredig gwarchoddedig o bwysigrwydd archeolegol, gan gynnwys olion Rhufeinig, tomenni claddu, cloddiau a safleoedd diwydiannol.

RESPONSE: Bydd ymwybyddiaeth o'r lleoliadau hyn yn ein helpu i weithio gydag eraill, yn enwedig Cadw ac awdurdodau lleol, wrth i ni gynllunio ar gyfer digwyddiadau amgylcheddol megis llifogydd a thanau gwyllt ac ymateb iddynt. Mae dros 6,000 o adeiladau rhestredig o fewn ardal y Gwasanaeth ac rydym yn cydnabod ein rôl o ran gwarchod treftadaeth leol, datblygu adroddiadau SSRI a chael cynlluniau ymateb yn eu lle ar gyfer adeiladau allweddol.

Mae targed Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050 yn cael ei gefnogi gan ymrwymiad y Gwasanaeth i'r Gymraeg. Ar y 30ain o Fedi, cyhoeddwyd ein hadroddiad cydymffurfio â'r Iaith Gymraeg, sy'n rhoi trosolwg o sut mae'r Gwasanaeth wedi cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.



Amdanom ni: ein Gwasanaeth

Mae ein datganiad cenhadaeth yn disgrifio pwrpas cyffredinol Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru: yr hyn a wnawn, i bwy yr ydym yn ei wneud, a sut a pham yr ydym yn ei wneud. Yn ogystal â dyletswydd statudol i ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys ymateb i danau, cyflawni gwaith achub o ddŵr mewndirol ac atal a lleihau risg, rhaid i ni weithio mewn partneriaeth er budd ein cymunedau, yn awr ac yn y dyfodol. Mae hyn yn cael ei gynorthwyo gan ddeall ein cymunedau a'r heriau sy'n ein hwynebu.

“ I WNEUD DE CYMRU’N DDIOGELACH, WRTH LEIHU RISG

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn gweithredu o **47 O ORSAFOEDD TÂN AC ACHUB** yn cynnwys:



Rydym yn rhannu **10 GORSAF** gyda **CHYDWEITHWYR O WASANAETHAU** brys eraill:



<div style="font-size: 2em; font-weight: bold; color: white; border-radius: 50%; width: 40px; height: 40px; display: flex; align-items: center; justify-content: center; margin: 0 auto;"> </div> <p style="font-weight: bold; font-size: 1.2em; margin-top: 5px;">ATAL</p> <ul style="list-style-type: none"> <li style="background-color: white; color: #2e7d32; border-radius: 5px; padding: 2px 5px; margin-bottom: 5px;">ADDYSGU <li style="background-color: white; color: #2e7d32; border-radius: 5px; padding: 2px 5px; margin-bottom: 5px;">ATAL LLOSGI BWRIADOL <li style="background-color: white; color: #2e7d32; border-radius: 5px; padding: 2px 5px; margin-bottom: 5px;">YMWYBYDDIAETH DIOGELWCH YN Y CARTREF <li style="background-color: white; color: #2e7d32; border-radius: 5px; padding: 2px 5px; margin-bottom: 5px;">YMGYSYLLTU CYMUNEDOL <li style="background-color: white; color: #2e7d32; border-radius: 5px; padding: 2px 5px; margin-bottom: 5px;">DIOGELWCH FFYRDD <li style="background-color: white; color: #2e7d32; border-radius: 5px; padding: 2px 5px; margin-bottom: 5px;">ARCHWILIADAU DIOGELWCH YN Y CARTREF <li style="background-color: white; color: #2e7d32; border-radius: 5px; padding: 2px 5px;">PATROLAU LLEIHU LLOSGI BWRIADOL 	<div style="font-size: 2em; font-weight: bold; color: white; border-radius: 50%; width: 40px; height: 40px; display: flex; align-items: center; justify-content: center; margin: 0 auto;"> </div> <p style="font-weight: bold; font-size: 1.2em; margin-top: 5px;">DIOGELU</p> <ul style="list-style-type: none"> <li style="background-color: white; color: #ffc107; border-radius: 5px; padding: 2px 5px; margin-bottom: 5px;">DIOGELWCH TÂN I FUSNESAU <li style="background-color: white; color: #ffc107; border-radius: 5px; padding: 2px 5px; margin-bottom: 5px;">TYRRAU UCHEL <li style="background-color: white; color: #ffc107; border-radius: 5px; padding: 2px 5px;">GORFODAETH 	<div style="font-size: 2em; font-weight: bold; color: white; border-radius: 50%; width: 40px; height: 40px; display: flex; align-items: center; justify-content: center; margin: 0 auto;"> </div> <p style="font-weight: bold; font-size: 1.2em; margin-top: 5px;">YMATEB</p> <ul style="list-style-type: none"> <li style="background-color: white; color: #dc3545; border-radius: 5px; padding: 2px 5px; margin-bottom: 5px;">GWRTHDRAWIADAU TRAFFIG AR Y FFYRDD <li style="background-color: white; color: #dc3545; border-radius: 5px; padding: 2px 5px; margin-bottom: 5px;">TANAU DOMESTIG/MASNACHOL <li style="background-color: white; color: #dc3545; border-radius: 5px; padding: 2px 5px; margin-bottom: 5px;">ACHUB ANIFEILIAID <li style="background-color: white; color: #dc3545; border-radius: 5px; padding: 2px 5px; margin-bottom: 5px;">DIGWYDDIADAU TRAFNIDIAETH <li style="background-color: white; color: #dc3545; border-radius: 5px; padding: 2px 5px; margin-bottom: 5px;">DIOGELU AMGYLCHEDDOL <li style="background-color: white; color: #dc3545; border-radius: 5px; padding: 2px 5px;">CHWILIO AC ACHUB TREFOL
--	--	---


Mae'r Ganolfan Cyd-reoli Tân, a weithredir gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, yn y Cyd-ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus ym Mhencadlys Heddlu De Cymru.

Mae cydleoli, gweithio ar y cyd a chydgyssylltu â gwasanaethau brys eraill yn ein helpu i amddiffyn a chefnogi ein cymunedau yn effeithiol. Mae adrannau eraill, megis yr adran gorfforaethol, wedi sefydlu perthnasoedd gwaith gyda'r partneriaid hyn sy'n atgyfnerthu ein model cydweithio a'n heffeithlonrwydd.

Mae Canolfan Hyfforddi a Datblygu Porth Caerdydd yn darparu adnodd pwrpasol i gyflwyno hyfforddiant gweithredol i'r safon uchaf. Mae ein Huned Iechyd Galwedigaethol (UIG), a leolir ym Mhont-y-clun, yn cefnogi ein staff yn eu hiechyd a'u lles.

O'n Pencadlys yn Llantrisant, mae ein timau'n cefnogi ein criwiau gan ddarparu gwasanaethau ychwanegol i'n cymunedau trwy weithgareddau atal ac amddiffyn rhagweithiol.

Rydym yn cyflogi **1,646 o STAFF** (ar yr 31ain o Fawrth 2024), ac mae gan rai ohonynt fwy nag un contract. Maent yn cynnwys:






DEMOGRAFFEG STAFF AR YR 31AIN O FAWRTH 2024


Rhywedd:

Pennir yr ystadegau sy'n ymwneud â rhywedd gan gategorïau a ddiffinnir gan CThEM ac a ddefnyddir at ddbenion y gyflogres a phensiwn.



Cyffredinol:

Gwryw: 82% (1,350)
Benyw: 18% (296)



Gwisg:

Gwryw: 91% (1,210)
Benyw: 9% (120)



Di-wisg:

Gwryw: 48% (168)
Benyw: 52% (179)

Categorïau eraill o ddemograffeg:

- Mae **65% (1,062)** o'r staff rhwng **16-45** oed,
- Mae **1.2% (19)** o'r staff wedi nodi eu bod yn perthyn i leiafrifoedd ethnig, o gymharu â 21% o boblogaeth De Cymru. Roedd yn well gan **97%** o staff naill ai beidio â nodi eu hethnigrwydd neu nid yw eu hethnigrwydd wedi'i ddatgelu.
- Mae **0.5% (8)** % o staff wedi nodi eu bod yn anabl, o gymharu â **21% o boblogaeth De Cymru**. Roedd yn well gan **51% o staff** naill ai beidio â darparu eu statws anabled neu nid yw eu statws wedi'i ddatgelu.
- Mae **0.4% (6)** o staff wedi nodi eu bod yn perthyn i gategori heblaw heterorywiol, o gymharu â 3% o boblogaeth De Cymru. Roedd yn well gan **70% o staff** naill ai beidio â darparu eu statws cyfeiriadedd rhywiol neu nid yw eu statws wedi'i ddatgelu.
- Rydym yn deall pwysigrwydd cydnabod hunaniaeth rhywedd, a gall staff ddatgelu hyn ar ein system AD. Nid ydym wedi cyhoeddi'r wybodaeth hon achos bod risg o adnabod unigolion gan fod y niferoedd yn fach.

RISG:

Mae cael cymaint o ddata cydraddoldeb heb ei ddatgelu yn effeithio ar ein gallu i gefnogi'r holl staff yn ddigonol.

YMATEB:

Rydym wedi newid ein categorïau cydraddoldeb yn ddiweddar i gyd-fynd â data'r Cyfrifiad, ac mae hyn yn ein galluogi i gymharu'n fwy effeithiol. Mae'r newid hwn wedi achosi cynnydd yn nifer y rhai nas datgelwyd wrth i rai categorïau ddod yn anarferedig.

Mae ein tîm ACCE (Amrywiaeth, Cynhwysiant, Cydlyniant ac Ecwiti) wedi datblygu ymgyrch am ddiben a manteision cwblhau'r wybodaeth hon a gyflwynwyd ar draws y Gwasanaeth.

Mae cynlluniau'n cael eu datblygu i sicrhau bod monitro ac adolygu data cydraddoldeb yn dod yn arferol ac yn cael ei ddarparu i Lywodraeth Cymru.



MAE EIN TÎM ACCE (AMRYWIAETH, CYNHWYSIANT, CYDLYNIANT AC ECWITI) WEDI DATBLYGU YMGYRCH AM DDIBEN A MANTEISION CWBLHAU'R WYBODAETH HON A GYFLWYNWYD AR DRAWS Y GWASANAETH.


HOLL STAFF		
GRADD	BENYW	GWRYW
Arall (Gradd 1-5 / Diffoddwr Tân)	15% (158)	85% (874)
Rheolwr Goruchwyliol (Gradd 6-9 / Rheolwr Criw – Rheolwr Gwylfa)	20% (108)	80% (437)
Rheolwr Canol (Gradd 10-18 / Rheolwr Gorsaf – Rheolwr Grŵp)	25% (39)	75% (116)
Rheolwr Strategol	27% (4)	73% (11)
CYFFREDINOL		
GRADD	BENYW	GWRYW
Arall (Gradd 1-5 / Diffoddwr Tân)	10% (97)	90% (829)
Rheolwr Goruchwyliol (Gradd 6-9 / Rheolwr Criw – Rheolwr Gwylfa)	5% (18)	95% (359)
Rheolwr Canol (Gradd 10-18 / Rheolwr Gorsaf – Rheolwr Grŵp)	8% (7)	92% (80)
Rheolwr Strategol	0% (0)	100% (9)
DI-WISG		
GRADD	BENYW	GWRYW
Arall (Gradd 1-5 / Diffoddwr Tân)	53% (63)	47% (55)
Rheolwr Goruchwyliol (Gradd 6-9 / Rheolwr Criw – Rheolwr Gwylfa)	52% (90)	48% (83)
Rheolwr Canol (Gradd 10-18 / Rheolwr Gorsaf – Rheolwr Grŵp)	47% (32)	53% (36)
Rheolwr Strategol	67% (4)	33% (2)

Trosiant

Yn 2023-2024 roedd trosiant staff yn 10%, yr un fath â'r flwyddyn flaenorol.

Bu **50 o ymddeoliadau ar draws y Gwasanaeth yn 2023-2024**, gyda 48 ohonynt yn 46 oed neu'n hŷn, sy'n cymharu â **54 o ymddeoliadau yn y flwyddyn flaenorol**, gyda phob un ohonynt yn 46 oed neu'n hŷn.

Bu cynnydd o **7% yn nhrosiant ein staff Cyd-rheoli Tân**, tra bod cyfraddau trosiant ar draws meysydd eraill o'r Gwasanaeth yn debyg.



*Cyfrifir trosiant drwy rannu'r nifer sy'n gadael y Gwasanaeth â chyfartaledd nifer y staff a gyflogir ar ddechrau'r flwyddyn a nifer y staff a gyflogir ar ddiwedd y flwyddyn.

RISG:

Os bydd trosiant yn yr Ystafell Cyd-reoli Tân yn parhau i gynyddu, gallai hyn effeithio ar ein gallu i ateb galwadau a threfnu ymateb o ganlyniad i golli profiad a sgiliau.

YMATEB:

Yn dilyn ymgyrch recriwtio lwyddiannus, rydym wedi cynyddu isafswm lefelau criwio fesul gwylfa o chwech i saith ac rydym yn gweithio tuag at gynyddu hyn ymhellach i wyth. Bydd cwrs recriwtiaid newydd yn cael ei gyflwyno ym mis Tachwedd 2024.



Llesiant staff a datblygiad personol

Fel rhan o'n proses Adolygiad Personol (AP) blynyddol, graddiodd staff eu lefelau egni cyffredinol yn y gwaith fel 7.7 allan o 10. Mae hyn yn welliant ar 7.2 allan o 10 yn y flwyddyn flaenorol.

Graddiodd staff eu lefel ymgysylltu gyffredinol yn y gwaith fel 7.7 allan o 10. Mae hyn yn is nag 8.0 allan o 10 yn y flwyddyn flaenorol.

Mae'r uchod yn cael ei adrodd yn flynyddol i'n uwch dîm arwain fel modd gwirio tymheredd cyflwr y Gwasanaeth, a defnyddir y trosolwg hwn i lunio'r gefnogaeth a roddir i staff.

Yn gyffredinol, gwellodd y niferoedd ar gyfer salwch staff yn 2023-2024 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, o ganlyniad i lai o salwch ymysg staff gweithredol er bod salwch ymhlith staff anweithredol wedi codi.

Bu gostyngiad o 8% yng nghyfanswm nifer y shifftiau/diwrnodau a gollwyd o ganlyniad i salwch (o 32,249 yn 2022-2023 i 29,668 yn 2023-2024). Bu gostyngiad o 14% yn nifer y shifftiau gweithredol/diwrnodau a gollwyd oherwydd salwch (o 28,109 yn 2022-2023 i 24,115 yn 2023-2024), a gwelsom gynnydd o 34% mewn shifftiau/diwrnodau a gollwyd o ganlyniad i salwch gan Staff Corfforaethol (o 4,141 yn 2022-2023 i 5,553 yn 2023-2024).

RISG:

Gallai cyfraddau uchel parhaus mewn perthynas â shifftiau/diwrnodau a gollir o ganlyniad i salwch gan staff corfforaethol effeithio ar hydwythdedd a morâl staff ac effeithiolrwydd adrannau

YMATEB:

Ymgymerwyd ag ailstrwythuro ac ailddyrranu cyfrifoldebau

yn y Gwasanaethau Pobl sy'n cynnwys ein Huned lechyd Galwedigaethol (UIG) a phrosesau brysbennu. Mae angen i'r Gwasanaeth bennu'n union pa ddarpariaeth UIG sydd ei angen gan fod gofynion wedi esblygu dros amser gyda mwy o bwyslais ar wasanaethau iechyd meddwl a chwnsela yn cael eu galw. Mae'r adolygiad o'r UIG wedi dechrau, gan gynnwys trafodaethau gyda Meddygon Teulu (MT) ein UIG, i sicrhau bod gennym ddigon o adnoddau a hydwythdedd yn eu lle i gefnogi staff.

Rydym yn cynyddu sgiliau rheolwyr i gefnogi eu timau'n effeithiol a hefyd rydym yn darparu cyfathrebiadau rheolaidd gyda chyngor i unigolion ar gynnal lles meddyliol, corfforol ac emosiynol a'u hatgoffa o'r opsiynau cymorth sydd ar gael.



RYDYM YN CYNFYDDU SGILIAU RHEOLWYR I GEFNOGI EU TIMAU'N EFFEITHIOL A HEFYD RYDYM YN DARPARU CYFATHREBIADAU RHEOLAIDD GYDA CHYNGOR I UNIGOLION AR GYNNAL LLES MEDDYLIOL, CORFFOROL AC EMOSIYNOL A'U HATGOFFA O'R OPSIYNAU CYMORTH SYDD AR GAEL.

Recriwtio

- Ymgeisiodd 1,276 o ymgeiswyr i ddod yn Ddiffoddwyr Tân Llawn Amser gyda ni yn ystod ein hymgyrch recriwtio a ddechreuodd yn Ionawr 2024, gyda 82 yn llwyddo. Mae hyn yn cymharu â 1,292 o ymgeiswyr pan gynhaliwyd yr ymgyrch flaenorol ar gyfer recriwtio Dyletswydd Gyflawn blaenorol yn Ionawr 2021, gyda 93 yn llwyddiannus.
- Roedd 12% (157) o ymgeiswyr yn fenywod eleni, gyda 10% (8) yn llwyddiannus. Roedd 12% (151) o ymgeiswyr yn fenywod pan gynhaliwyd yr ymgyrch flaenorol ar gyfer recriwtio Dyletswydd Gyflawn yn Ionawr 2021, gyda 23% (21) yn llwyddiannus. Mae 6% (47) o Ddiffoddwyr Tân Llawn Amser ar 31 Mawrth 2024 yn fenywod.
- Nododd 4% (51) o ymgeiswyr eu bod yn lleiafrifoedd ethnig, o'u cymharu â 3% (39) yn yr ymgyrch flaenorol. Nododd 5% (4) o ymgeiswyr llwyddiannus eleni eu bod yn perthyn i leiafrif ethnig. Nododd 1% (1) o ymgeiswyr llwyddiannus yn yr ymgyrch flaenorol eu bod yn perthyn i leiafrif ethnig. Roedd 97% (786) o Ddiffoddwyr Tân Dyletswydd Gyflawn ar yr 31ain o Fawrth 2024 heb nodi eu hethnigrwydd yn eu gwybodaeth bersonol

neu roedd yn well ganddynt beidio â dweud.

- Roedd proffil yr ymgeiswyr llwyddiannus yn iau eleni, gyda 82% (67) o dan 35 oed o'u cymharu â 72% (67) yn yr ymgyrch flaenorol (pan ddewiswyd mwy o ymgeiswyr yn ystod y broses recriwtio).

RISG

Os na fyddwn yn denu ymgeiswyr amrywiol drwy ein proses recriwtio ni fydd gennym weithlu sy'n adlewyrchu ein cymunedau ac efallai na fyddwn yn cael ein hystyried yn gyflogwr o ddewis.

YMATEB:

Cynyddodd amrywiaeth tarddiad ethnig ymhlith ymgeiswyr dyletswydd gyflawn yn yr ymgyrch hon tra bod cynrychiolaeth menywod yn parhau yn yr un modd. Mae hyn yn dangos cynnydd cyson, ond mae angen mwy o waith i sicrhau bod hyn yn parhau mewn gwahanol rolau o fewn y Gwasanaeth

Mae ein Partner Busnes ACCE yn datblygu rhwydwaith ACCE o hyrwyddwyr ar draws y Gwasanaeth a fydd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau allgymorth gyda chymunedau mewnol ac allanol ill dau. Mae'r rhwydwaith hwn wedi lansio ein Haddewid ACCE sy'n cynnwys nifer o gamau gweithredu syml, ymarferol sydd a gynlluniwyd

i'n helpu ar ein taith i ddod yn fwy cynhwysol ac amrywiol, gan greu cyfleoedd teg i bawb yn ogystal â hyrwyddo llesiant unigol a chyfunol.

Bydd ein haddewid ACCE yn helpu i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i weithwyr a'r cymunedau ehangach rydym yn eu gwasanaethu drwy:

- Greu gweithle gwell ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol trwy ddod yn fwy amrywiol o ran meddwl, ac felly'n arloesol a chreadigol yn ein hymagwedd at leihau risg a chadw ein cymunedau'n ddiogel.
- Adael etifeddiaeth gadarnhaol drwy helpu i adeiladu Cymru decach a mwy cynhwysol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Rydym yn gweithio i wella ein dull o gasglu a defnyddio data ym mhob cam o recriwtio a chyflogaeth er mwyn deall profiad staff yn well ar hyd eu gyrfa. Bydd hyn hefyd yn ein helpu i fonitro ein cynnydd wrth gyflawni'r newid angenrheidiol a amlygwyd gan yr Adolygiad Annibynnol i Ddiwylliant trwy werthuso effeithiolrwydd ein polisiau a'n gweithdrefnau.



Digwyddiad Recriwtio GTADC: Ymarfer gyda'r Wylfa




2023-2024: Trosolwg Ystadegau

CODI YM WYBYDDIAETH | LLEIHAU RISG



GALWADAU BRYS





^ Galwadau a heriwyd yn llwyddiannus gan Gyd-reoli Tân gan osgoi symudiadau diangen neu alw peiriannau tân yn ôl.



DIGWYDDIADAU




TANAU




O'R TANAU A FNYCHWYD YN FWRIADOL




GALWADAU FFUG



GALWADAU GWASANAETH ARBENNIG (GGA)



GWEITHGARWCH LLEIHAU RISG






Sut y gwnaethom berfformio yn 2023-2024

Mae'n hanfodol ein bod yn adolygu ein perfformiad er mwyn monitro ein heffeithlonrwydd a'n heffeithiolrwydd. Rydym yn gosod rhagolygon blynyddol yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Strategol Llywodraeth Cymru ac yn cymharu ein perfformiad yn erbyn gwasanaethau tân ac achub eraill, gan rannu data'n rheolaidd i lywio'r gwaith monitro hwn a darparu data meincnodi er mwyn cymharu.


Mae'r adran hon yn rhoi gwybodaeth am sut rydym wedi perfformio yn erbyn ein dangosyddion strategol a mesurau perfformiad allweddol eraill.

Galwadau a Dderbyniwyd

Yn 2023 – 2024:




- Derbyniodd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru **36,913 o alwadau**, sef **cynnydd o 6.4%** ers y flwyddyn flaenorol.
- Roedd **33% o'r holl alwadau (12,044)** yn alwadau mynych ar gyfer digwyddiadau a hysbyswyd eisoes.
- Cyfeiriwyd **3% o'r holl alwadau (1,098)** at asiantaethau eraill..



Mae ein polisi herio galwadau yn ein helpu i reoli galwadau a allai arwain at ddanfôn diangen i ddigwyddiadau ffug. Rydym yn gofyn cwestiynau allweddol i ganfod lleoliad y galwr. Wedyn byddwn yn gwirio a yw'r alwad yn cael ei gwneud gyda bwriad da ac yn asesu'r risg. O ganlyniad i hyn gall Cyd-reolwyr Tân adnabod galwadau maleisus. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf llwyddwyd i osgoi 4,587 o achosion ddanfôn diangen.



Yr holl ddigwyddiadau a fynychwyd



Rhagolygon 2023-2024	17,760
Perfformiad gwirioneddol	19,004
Amrywiant	+7.0%
Graddfa fesul 10,000 o'r boblogaeth	
GTADC	123.2
Cymru	121.3
Lloegr	105.1

Mynychom **294** yn fwy o ddigwyddiadau yn 2023-2024 na'r flwyddyn flaenorol, sef cynnydd o 1.6%.

8.2%

Cynyddodd **Galwadau Ffug** gan 719, (8.2%)

4.2%

Cynyddodd **Galwadau Gwasanaeth Arbennig** eraill gan 129 (4.2%)

2.6%

Cynyddodd **Gwrthdrawiadau Traffig Ffyrdd** gan 22 (2.6%).

9.5%

Mynychodd criwiau'r nifer lleiaf o danau a gofnodwyd ers cyflwyno'r System Cofnodi Digwyddiadau (SCD) gyfredol yn Ebrill 2009, sef gostyngiad o 571 (9.5%).

Mae adolygiad o bob math o ddigwyddiad yn dilyn. I adolygu risg a chydlynu gweithgarwch gan gynnwys hyfforddiant, ymateb gweithredol a lleihau risg, mae gweithgorau yn datblygu arbenigedd arbenigol ar draws y Gwasanaeth a hefyd gyda phartneriaid lle bo'n briodol.

Am wybodaeth gan wasanaethau eraill:

Y Swyddfa Gartref – ystadegau digwyddiadau tân ac achub (Lloegr) [Ar-lein](#)

[Gwefan](#)
Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

[Gwefan](#)
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Stats Cymru
[Ar-lein](#)



Tanau a Fynychwyd:





Rhagolygon 2023-2024	5,889
Perfformiad gwirioneddol	5,460
Amrywiant	-7.3%
Graddfa fesul 10,000 o'r boblogaeth	
GTADC	35.4
Cymru	30.9
Lloegr	24.3

Bu gostyngiad o 9.5% yn nifer y tanau yr ymatebwyd iddynt i 5,460 yn 2023-2024, o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae tua 70% o'r holl danau a fynychwyd yn cael eu cynnu'n fwriadol.

Tanau Sbwriel



Yw'r math mwyaf cyffredin o dân a fynychwyd yn gyson, sef tua 45% o'r holl danau.



Rydym wedi sefydlu Gweithgor Tanau Sbwriel i gydlyn ymgyrchoedd a gweithio gyda phartneriaid er mwyn deall ac ymateb yn well i'r risg a'r niwsans i gymunedau y mae'r digwyddiadau hyn yn ei achosi.

Tanau glaswellt neu danau gwyllt


y'n cyfrif am 15-20% o'r holl danau bob blwyddyn.



Roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i gyfnod estynedig o dywydd poethach a sychach yn 2022-2023, tywydd gwlypach yn 2023-2024 ynghyd ag ymyrraeth gan ein Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol (TLI LI B) gan gynnwys rôl ymgysylltu â thirfeddianwyr, partneriaid allweddol CNC ac awdurdodau lleol. Mentrau rhagweithiol i atal tanau gwyllt gan gynnwys defnyddio peiriannau arloesol megis cerbydau sy'n addas ar gyfer pob math o dir, torwyr llwyni a pheiriannau torri gwair.

Mae ein cymunedau yn y cymoedd yn cael eu heffeithio'n arbennig gan y tanau glaswellt hyn, a dyna pam ein bod yn gweithio'n barhaus gyda phartneriaid yn yr ardal leol. Gydag effaith newid yn yr hinsawdd, disgwyliwn y bydd hafau hirach a sychach ynghyd â stormydd mwy dwys yn y dyfodol.

Tanau mewn anheddau



Tanau damweiniol mewn anheddau

- Yw ffocws y gwaith ataliol.
- Wedi'u lleihau gan 2 o 623 i 621 yn 2023-2024.
- Tanau'n ymwneud â choginio yn gyson yw prif achos tanau damweiniol mewn anheddau (TDA) (tua 60% bob blwyddyn).

Tanau batris lithium-ion



Rydym wedi sefydlu Gweithgor Lithium-ion i adnabod a rheoli'r risg gynyddol gan gynhyrchion batris lithium-ion.


Meincnodi

Mae nifer y tanau a fynychwyd fesul 10,000 o'r boblogaeth yn uwch na'r niferoedd ar gyfer Cymru Gyfan a Lloegr Cyfan. Cofnodwyd ffigurau is fesul 10,000 o'r boblogaeth eleni gyda De Cymru (-4.2), Cymru Gyfan (-4.7) a Lloegr (-7.3). Ym mhob un o'r tri rhanbarth gwelwyd y nifer lleiaf o ddiwyddiadau tân ers cyflwyno'r system gofnodi ddiweddaraf yn Ebrill 2009..



Larymau Ffug a Fynychwyd:

Rhagolwg Gwir



Rhagolwg 2023-2024	8,315
Perfformiad gwirioneddol	9,465
Amrywiad	+13.8%
Graddfa fesul 10,000 o'r boblogaeth	
GTADC	61.4
Cymru	58.4
Lloegr	46.2

Mae larwm ffug yn cael ei gofnodi pan fydd lleoliad yn cael ei fynychu ar gyfer tân neu ddigwyddiad nad yw'n dân lle nad oes digwyddiad gwirioneddol o'r fath yn bod. Gall galwadau ffug gael eu hachosi gan gyfarpar, bwriad da neu faleisus a gallent fod yn gysylltiedig â mathau o ddigwyddiadau Gwasanaeth Tân neu Wasanaeth Arbennig.


Cynyddodd nifer y galwadau ffug gan **8.2%** o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol, o **8,746 i 9,465**.

Fel y nodir yn y siart uchod, bu cynnydd cyson yn y nifer o'n criwiau a fynychwyd galwadau ffug yn y blynyddoedd diwethaf.

Mae'r cynnydd hwn o ganlyniad i'n presenoldeb mewn mwy o alwadau ffug achos cyfarpar (o ganlyniad i larymau tân ac offer diffodd tân yn cael eu gweithredu).

Larymau Tân Ffug o ganlyniad i gyfarpar

wedi codi gan **10.4%** o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, o **5,419 i 5,983**.



- Digwyddodd **13.3% (794 o ddigwyddiadau)** mewn fflatiau amlfeddiannaeth bwrpasol
- Digwyddodd **12.3%, (736 o ddigwyddiadau)** mewn ysbytai/ cyfleusterau gofal meddygol.
- Wedi cynyddu eleni mewn anheddau deiliadaeth sengl (+**39.8%**, o **241 i 337**) a chyfleusterau addysgol (+**20.6%**, o **578 i 697**).

Mae adroddiad cynhwysfawr sy'n manylu ar effaith Larymau Tân Awtomatig (LTA) ar y Gwasanaeth, ymateb Gwasanaethau Tân ac Achub eraill i LTA, a dadansoddiad risg a buddion y newid arfaethedig wedi'i gyflwyno i'n Bwrdd Comisiynwyr ac maent wedi ei gymeradwyo. Cewch gyfeirio at dudalen 16 am ragor o wybodaeth.

Galwadau Ffug gyda Bwriad Da

wedi codi gan **6.7%** o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol **3,023 i 3,226**.

Wedi cynyddu eleni mewn fflatiau amlfeddiannaeth a adeiladwyd yn bwrpasol (+32.4%, o 188 i 249) ac anheddau deiliadaeth sengl (+14.5%, o 751 i 860).

Galwadau Ffug Maleisus


wedi gostwng gan **15.8%** o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol **304 i 256**.

Mae ein polisi Herio Galwadau yn parhau i wella'r broses o ddilysu galwadau a wneir gyda bwriad da.


Meincnodi

Mae'r digwyddiadau Galwadau Diangen a fynychwyd fesul 10,000 o'r boblogaeth yn uwch nag ar gyfer Cymru gyfan a Lloegr. Gwelodd pob un o'r tri rhanbarth gynnydd yn y boblogaeth fesul 10,000 eleni, gyda chynnydd mwy yng Nghymru na Lloegr (De Cymru, +4.0, Cymru Gyfan +5.0 a Lloegr +1.4). Gwelodd y tri rhanbarth gynnydd yn nifer y Galwadau Diangen o ganlyniad i Offer (De Cymru, +10.4%, Cymru Gyfan +13.3% a Lloegr +9.5%).



Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffordd a Fynychwyd


Rhagolwg 2023-2024	858
Perfformiad gwirioneddol	870
Amrywiad	+1.4%
Graddfa fesul 10,000 o'r boblogaeth	
GTADC	5.6
Cymru	6.1
Lloegr	5.6

Galwadau Gwasanaethau Eraill a Fynychwyd:


Rhagolwg 2023-2024	2,698
Perfformiad gwirioneddol	3,209
Amrywiad	+18.9%
Graddfa fesul 10,000 o'r boblogaeth	
GTADC	20.8
Cymru	26.0
Lloegr	30.7

Mae Galwadau Gwasanaeth Arbennig (GGA) Eraill yn ddigwyddiadau nad ydynt yn danau ac eithrio Gwrthdrawiadau Traffig Ffyrdd (GTFf) ac maent yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i ddigwyddiadau meddygol ac achub pobl, trychinebau amgylcheddol mawr megis llifogydd neu ddigwyddiadau yn ymwneud â deunyddiau peryglus, digwyddiadau domestig megis pobl sydd wedi'u cloi i mewn/allan a hunanladdiad/ymgais at hunanladdiad a threfniadau blaenorol ar gyfer mynychu neu gynorthwyo asiantaethau eraill.

↑ Yn 2023-2024, bu cynnydd o **4.2%** mewn Galwadau Gwasanaeth Arbennig Eraill o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, o **3,080 i 3,209**.

Fel mae'r siart uchod yn dangos, bu cynnydd cyson yn ein criwiau a fynychodd Galwadau Gwasanaeth Arbennig Eraill yn ystod y tair blynedd diwethaf. Mae'r cynnydd hwn wedi'i ysgogi gan waith partneriaeth ychwanegol y mae criwiau'n ei wneud i gefnogi'r Gwasanaeth Ambiwlans a'r Heddlu. Mae gwaith yn parhau i asesu'r effaith ar ein gwasanaethau o'r galw cynyddol i gynorthwyo asiantaethau eraill.

Cynorthwyo asiantaethau eraill

↑ Cododd digwyddiadau gan **29.7%** o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, o **666 i 864**.

↑ Cynyddodd nifer y digwyddiadau lle'r oedd angen cymorth ar gleifion bariatrig gan **38.5%**, o **221 i 306**.

Llifogydd

↓ Bu gostyngiad o **3.5%** yn nifer y digwyddiadau o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, o **255 i 246**.

↓ Bu gostyngiad o **35.9%**, yn nifer y digwyddiadau llifogydd lle'r oedd angen pwmpio dŵr allan, o **39 i 25**.

Achub o'r dŵr


↑ Wedi cynyddu gan **36.2%** yn 2023-2024, o **47 i 64**.

28.1% Digwyddodd 28.1% o'r achosion achub yn ardal Caerdydd, gyda digwyddiadau o gwmpas Bae Caerdydd ac arglawdd Afon Taf yn fwyaf cyffredin.

Meincnodi

Mae nifer y Galwadau Gwasanaethau Arbennig Eraill a fynychwyd gan ein criwiau fesul 10,000 o'r boblogaeth yn parhau i fod yn is na'r niferoedd ar gyfer Cymru Gyfan a Lloegr. Cododd cyfraddau ychydig yn Ne Cymru (+0.6) a Chymru Gyfan (+0.5), tra gwelwyd cynnydd mwy yn y cyfraddau yn Lloegr (+2.6) yn 2023-2024 o'u cymharu â 2022-2023.

↑ Bu cynnydd o **2.6%** yn nifer y Gwrthdrawiadau Traffig Ffyrdd (GTFf) a fynychwyd gennym, gan godi o **848** yn ystod y flwyddyn flaenorol i **870** yn **2023-2024**.




- Gwelwyd gostyngiad gan 5.6% mewn GTFf lle'r oedd angen i berson(au) gael eu datglymu o gerbyd.
- Roedd GTFf lluosgerbyd yn cyfrif am 19.5% o'r holl GTFf, o gymharu â 28.7% yn y flwyddyn flaenorol.
- Cynyddodd nifer y marwolaethau o 21 y llynedd i 23.
- Yng Nghaerdydd y gwelwyd y gwelliant mwyaf mewn ffigurau marwolaethau, gyda sero yn 2023-2024 o gymharu â 7 yn y flwyddyn flaenorol.

↓ Gostyngodd anafiadau o GTFf gan **9.9%**


Yn ystod 2023-2024, cyflwynodd Llywodraeth Cymru derfynau cyflymder 20mya ar rai ffyrdd mewn ardaloedd preswyl. Gallai'r effaith uniongyrchol ar ddigwyddiadau a fynychir gan GTADC fod yn gyfyngedig gan ein bod yn mynychu cyfran uwch o'r damweiniau mwyaf difrifol ar ffyrdd dibreswyl. Byddwn yn parhau â'n gwaith cydweithredol gyda phartneriaid i gyflwyno negeseuon diogelwch ffyrdd allweddol ac addysg ar draws De Cymru.

Meincnodi

Mae nifer y GTFf a fynychwyd gan ein criwiau fesul 10,000 o'r boblogaeth yr un fath ag yn 2022-2023 ac erbyn hyn maent yn hafal i'r nifer a fynychwyd fesul 10,000 o'r boblogaeth yn Lloegr. Gwelwyd cynnydd ymylol yng Nghymru gyfan (+0.1) a Lloegr (+0.1) yn 2023-2024 o'u cymharu â 2022-2023.

Marwolaethau ac anafiadau sy'n ymwneud â thân**Holl danau**


Rhagolwg 2023-2024	60
Perfformiad gwirioneddol	42
Amrywiad	-30%
Graddfa fesul 10,000 o'r boblogaeth	
GTADC	2.6
Cymru	3.7
Lloegr	5.2

Tanau damweiniol

Rhagolwg 2023-2024	52
Perfformiad gwirioneddol	34
Amrywiad	-34.6%
Graddfa fesul 10,000 o'r boblogaeth	
GTADC	2.2
Cymru	3.1
Lloegr	4.4

Cyfanswm marwolaethau ac anafiadau'n gysylltiedig â thân

- Dangosir tueddiad o ostyngiad tymor hwy, gyda chyfartaledd blynyddol o 67.0 yn y deng mlynedd flaenorol a chyfartaledd o 59.6 yn y pum mlynedd diwethaf.
- Gostyngodd nifer y marwolaethau o 6 yn 2022-2023 i 4 yn 2023-2024.



Gyda chyflwyniad y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, mae GTADC yn parhau i feddwl am sut y gall ein penderfyniadau strategol wella anghydraddoldeb canlyniadau i bobl sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae anghydraddoldeb canlyniad yn ymwneud ag unrhyw wahaniaeth mesuradwy mewn canlyniad rhwng y rhai sydd wedi profi anfantais economaidd-gymdeithasol a'r rhai nad ydynt wedi gwneud hynny. Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yw mesur swyddogol Llywodraeth Cymru o amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru. Mae'n nodi ardaloedd â'r niferoedd uchaf o ran sawl math gwahanol o amddifadedd gan gynnwys incwm, cyflogaeth, addysg iechyd, mynediad i wasanaethau, diogelwch cymunedol, amgylchedd ffisegol a thai.

Marwolaethau ac anafiadau sy'n gysylltiedig â thân damweiniol

- Gostyngodd nifer y marwolaethau o 5 yn 2022-2023 i 3 yn 2023-2024.
- Digwyddodd 6% o farwolaethau ac anafiadau mewn tanau damweiniol lle'r oedd ffynhonnell y tanio yn ymwneud ag ysmegu. Mae hyn yn ostyngiad o 16% yn 2022-2023.

Tanau Damweiniol mewn Anheddau (TDA)

- Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, yr oedran cyfartalog ar gyfer marwolaethau oedd 71.9. Roedd 54% yn byw ar eu pen eu hunain a thros oedran pensiwn.
- 49.7 oedd oedran cyfartalog y bobl a ddiodeffodd anafiadau angheuol.
- Coginio oedd achos mwyaf cyffredin anafiadau (26%).


Meincnodi

Mae nifer y Marwolaethau ac Anafiadau o ganlyniad i danau damweiniol fesul 100,000 o boblogaeth De Cymru yn parhau i fod yn is na Chymru Gyfan ac yn llai na hanner y nifer yn Lloegr. Gostyngodd y gyfradd yn Ne Cymru gan -0.8 yn 2023-2024. Gostyngodd cyfradd Cymru Gyfan o -0.9, tra bod y gyfradd yn Lloegr wedi codi +0.1

MAE NIFER Y MARWOLAETHAU AC ANAFIADAU O HOLL DANAU FESUL 100,000 O BOBLOGAETH DE CYMRU YN PARHAU YN IS NA CHYMRU GYFAN AC YN LLAI NA HANNER Y NIFER YN LLOEGR. GWELODD DE CYMRU'R GOSTYNGIAD MWYAF YN 2023-2024.



% Tanau mewn anheddau a gyfyngir i'r ystafell lle y'u cychwynwyd



Mae hwn yn fesur o danau mewn anheddau parhaol lle bu difrod gan wres/mwg yn unig neu lle cyfyngwyd y tân yn yr ystafell lle dechreuodd neu mewn manau nad oedd yn lledu y tu hwnt i'r to neu ofod y to.

- Cynyddodd tanau mewn anheddau a gyfyngwyd i'r ystafell wreiddiol i 84.4% yn 2023-2024 o'u cymharu ag 82.7% yn y flwyddyn flaenorol.
- O'r 687 o danau mewn anheddau a fynychwyd yn 2023-2024, roedd 580 wedi'u cyfyngu i'r ystafell wreiddiol.
- Mewn achosion lle'r oedd larwm, roedd 88.1% o danau mewn anheddau wedi'u cyfyngu. Mewn achosion lle nad oedd larwm, cafodd 80.7% eu cyfyngu.
- Ar ôl cyrraedd y lleoliad, roedd 95 o danau eisoes wedi lledu y tu hwnt i'r ystafell wreiddiol. Mae hyn yn cyfateb i 13.8% o gyfanswm y tanau mewn anheddau ac 88.8% o danau heb eu cyfyngu mewn anheddau.
- Roedd tanau lle cofnodwyd bod y tân yn lledaenu'n gyflym (achos ffactorau megis presenoldeb cynhyrchion petrol/olew, nwyon, olew coginio/braster ac ati) yn cyfrif am 16 (2.8%) o'r 580 o danau mewn anheddau a oedd wedi'u cynnwys yn yr ystafell wreiddiol a 20 (18.7) % o'r tanau heb eu cyfyngu mewn anheddau.
- Lle na chofnodwyd bod y tân yn lledaenu'n gyflym, roedd 86.6% o'r tanau wedi'u cyfyngu. Lle cofnodwyd bod y tan yn lledaenu'n gyflym, roedd 44.4% wedi cael eu cyfyngu.

Meincnodi

Mae canran y tanau mewn anheddau a gyfyngir i'r ystafell lle y'u cychwynwyd yn is na Gogledd Cymru (90.9%) a Lloegr (88.5%), ac yn uwch na Chanolbarth Cymru (82.7%). Fodd bynnag, mae rhai Gwasanaethau'n gwahaniaethu yn y modd maent yn cipio lledaeniad tân.

Awdurdodau Unedol

BLAENAU GWENT

	GORSAFOEDD TÂN AC ACHUB LLAWN AMSER	1	GORSAFOEDD TÂN AC ACHUB AR ALWAD	3
	37 Glyn Ebwy		27 Tredegar / 35 Abertyleri / 38 Brynmawr	

ATL		DIOGELU		YMATEB		
Gwiriadau Tân yn y Cartref	901	Archwiliadau a gyflawnwyd	24	Tanau	513	467
% dros 65	37.0%*	Gwybodaeth risgiau penodol i safle	90	Larymau ffug	413	394
Ymgysylltu ag Ysgolion						
61 sesiwn	2,498 o bobl ifanc	Ysgolion a gynhelir (meithrin, cynradd, uwchradd, arbennig)	25	GTFf	32	33
				GGA Eraill	133	158

*(oed heb ei ddatgan 32%)

POBLOGAETH	2011	2021
Cyfanswm	69,814	66,904
16 oed ac is	16,271	14,388
Dros 65	12,477	13,523
Aelwydydd un person – dros 66 oed		4,361

AMGYLCHEDD	
Ardal cilomedr2	109
Adeiladau cofrestredig Cadw	53
Cofebion cofrestredig	12
Tyrrau uchel	0

PEN-Y-BONT AR OGWR

	GORSAFOEDD TÂN AC ACHUB LLAWN AMSER	2	GORSAFOEDD TÂN AC ACHUB AR ALWAD	5
	01 Pen-y-bont ar Ogwr / 08 Maesteg		02 Porthcawl / 03 Mynydd Cynffig 05 Pencoed / 06 Cwm Ogwr / 07 Pontycymer	

ATL		DIOGELU		YMATEB		
Gwiriadau Tân yn y Cartref	1,442	Archwiliadau a gyflawnwyd	92	Tanau	455	492
% dros 65	41.0%*	Gwybodaeth risgiau penodol i safle	113	Larymau ffug	722	790
Ymgysylltu ag Ysgolion						
148 sesiwn	6,259 o bobl ifanc	Ysgolion a gynhelir (meithrin, cynradd, uwchradd, arbennig)	59	GTFf	80	81
				GGA Eraill	265	281

*(oed heb ei ddatgan 29%)

POBLOGAETH	2011	2021
Cyfanswm	139,178	145,488
16 oed ac is	32,072	31,988
Dros 65	24,854	30,095
Aelwydydd un person – dros 66 oed		8,535

AMGYLCHEDD	
Ardal cilomedr2	246
Adeiladau cofrestredig Cadw	375
Cofebion cofrestredig	59
Tyrrau uchel	0



Porthcawl, Awdurdod Unedol Pen-y-bont ar Ogwr

Awdurdodau Unedol

- Ystadegau Poblogaeth – 2011 o'i chymharu â 2021 Cymharoeth ôr Cyfrifiad
- Ymgysylltu ag Ysgolion – Ymweliadau â Chyfnodau Allweddol, Cyflwyniadau Criw Craff a Thanau Gwyllt
- Archwiliadau – Archwiliadau Diogelwch Tân a gynhelir gan yr Adran Diogelwch Tân i Fusnesau
- Gwybodaeth Risg Penodol i'r Safle – Eiddo gyda gwybodaeth ymateb a bennir ymlaen llaw ar gadw
- Ysgolion – Safleoedd Ysgolion a gynhelir (sy'n cael eu hariannu a'u rheoli gan yr awdurdod addysg lleol) ym Medi 2023, ar wahân i unedau cyfeirio disgyblion, ac yn cynnwys Ysgolion Arbennig



CAERFFILI

	GORSAFOEDD TÂN AC ACHUB LLAWN AMSER/AR ALWAD	2	GORSAFOEDD TÂN AC ACHUB AR ALWAD	3
	21 Aberbargod / 24 Caerffili		28 Rhymini / 30 Abercarn / 31 Rhisga	

ATAL		DIOGELU		YMATEB		22/23	23/24
Gwiriadau Tân yn y Cartref	1,984	Archwiliadau a gyflawnwyd	36	Tanau	884	838	
% dros 65	36.0%*	Gwybodaeth risgiau penodol i safle	147	Larymau ffug	889	914	
Ymgysylltu ag Ysgolion		Ysgolion a gynhelir (meithrin, cynradd, uwchradd, arbennig)	86	GTFf	96	108	
268 sesiwn	7,724 o bobl ifanc	*(oed heb ei ddatgan 41%)					
GGA Eraill				GGA Eraill	287	326	

POBLOGAETH	2011	2021	AMGYLCHEDD	
Cyfanswm	139,178	145,488	Ardal cilomedr2	246
16 oed ac is	32,072	31,988	Adeiladau cofrestredig Cadw	378
Dros 65	24,854	30,095	Cofebion cofrestredig	59
Aelwydydd un person – dros 66 oed		8,535	Tyrrau uchel	0

MERTHYR TUDFUL

	GORSAFOEDD TÂN AC ACHUB LLAWN AMSER/AR ALWAD	1	GORSAFOEDD TÂN AC ACHUB AR ALWAD	1
	26 Merthyr Tudful		25 Treharris	

ATAL		DIOGELU		YMATEB		22/23	23/24
Gwiriadau Tân yn y Cartref	590	Archwiliadau a gyflawnwyd	19	Tanau	261	296	
% dros 65	21.0%*	Gwybodaeth risgiau penodol i safle	59	Larymau ffug	312	377	
Ymgysylltu ag Ysgolion		Ysgolion a gynhelir (meithrin, cynradd, uwchradd, arbennig)	24	GTFf	42	37	
66 sesiwn	2,181 o bobl ifanc	*(oed heb ei ddatgan 54%)					
GGA Eraill				GGA Eraill	120	147	

POBLOGAETH	2011	2021	AMGYLCHEDD	
Cyfanswm	58,802	58,839	Ardal cilomedr2	111
16 oed ac is	14,049	13,661	Adeiladau cofrestredig Cadw	235
Dros 65	9,796	11,112	Cofebion cofrestredig	46
Aelwydydd un person – dros 66 oed		3,464	Tyrrau uchel	1

CAERDYDD

	GORSAFOEDD TÂN AC ACHUB LLAWN AMSER	4
	49 Yr Eglwys Newydd / 50 Y Rhath / 51 Canol Caerdydd / 52 Trelái	

ATAL		DIOGELU		YMATEB		22/23	23/24
Gwiriadau Tân yn y Cartref	2,617	Archwiliadau a gyflawnwyd	181	Tanau	1,117	1,097	
% dros 65	20.0%*	Gwybodaeth risgiau penodol i safle	474	Larymau ffug	2,371	2,640	
Ymgysylltu ag Ysgolion		Ysgolion a gynhelir (meithrin, cynradd, uwchradd, arbennig)	127	GTFf	155	160	
213 sesiwn	7,611 o bobl ifanc	*(oed heb ei ddatgan 59%)					
GGA Eraill				GGA Eraill	770	785	

POBLOGAETH	2011	2021	AMGYLCHEDD	
Cyfanswm	346,090	362,310	Ardal cilomedr2	140
16 oed ac is	84,866	88,510	Adeiladau cofrestredig Cadw	866
Dros 65	45,552	52,497	Cofebion cofrestredig	30
Aelwydydd un person – dros 66 oed		16,526	Tyrrau uchel	166

SIR FYNWY

	GORSAFOEDD TÂN AC ACHUB AR ALWAD	5
	40 Y Fenni / 41 Trefynwy / 42 Brynbuga / 43 Casgwent / 44 Cil-y-coed	

ATAL		DIOGELU		YMATEB		22/23	23/24
Gwiriadau Tân yn y Cartref	829	Archwiliadau a gyflawnwyd	54	Tanau	227	188	
% dros 65	33.0%*	Gwybodaeth risgiau penodol i safle	91	Larymau ffug	511	524	
School engagement		Ysgolion a gynhelir (meithrin, cynradd, uwchradd, arbennig)	33	GTFf	75	69	
43 sesiwn	1,516 o bobl ifanc	*(oed heb ei ddatgan 42%)					
GGA Eraill				GGA Eraill	171	156	

POBLOGAETH	2011	2021	AMGYLCHEDD	
Cyfanswm	91,323	92,957	Ardal cilomedr2	850
16 oed ac is	20,821	18,329	Adeiladau cofrestredig Cadw	2,420
Dros 65	19,043	24,042	Cofebion cofrestredig	201
Aelwydydd un person – dros 66 oed		6,534	Tyrrau uchel	0



CASNEWYDD

	GORSAFOEDD TÂN AC ACHUB LLAWN AMSER	3
	45 Malpas / 46 Maendy / 47 Duffryn	

ATAL		DIOGELU		YMATEB		22/23	23/24
Gwiriadau Tân yn y Cartref	1,538	Archwiliadau a gyflawnwyd	65	Tanau	962	700	
% dros 65	21.0%*	Gwybodaeth risgiau penodol i safle	157	Larymau ffug	1,127	1,127	
Ymgysylltu ag Ysgolion		Ysgolion a gynhelir (meithrin, cynradd, uwchradd, arbennig)	56	GTFf	80	86	
109 sesiwn	6,481 o bobl ifanc	*(oed heb ei ddatgan 58%)					
GGA Eraill							
		317					

POPULATION	2011	2021
Cyfanswm	145,736	159,587
16 oed ac is	37,383	38,957
Dros 65	23,751	27,063
Aelwydydd un person – dros 66 oed		8,495

ENVIRONMENT	
Ardal cilomedr2	190
Adeiladau cofrestredig Cadw	436
Cofebion cofrestredig	70
Tyrrau uchel	12

TORFAEN

	GORSAFOEDD TÂN AC ACHUB LLAWN AMSER	2	GORSAFOEDD TÂN AC ACHUB AR ALWAD	2
	32 Cwmbrân / 33 New Inn		34 Abersychan / 39 Blaenafon	

ATAL		DIOGELU		YMATEB		22/23	23/24
Gwiriadau Tân yn y Cartref	1,324	Archwiliadau a gyflawnwyd	27	Tanau	418	288	
% dros 65	39.0%*	Gwybodaeth risgiau penodol i safle	100	Larymau ffug	653	671	
Ymgysylltu ag Ysgolion		Ysgolion a gynhelir (meithrin, cynradd, uwchradd, arbennig)	32	GTFf	42	50	
70 sesiwn	3,167 o bobl ifanc	*(oed heb ei ddatgan 39%)					
GGA Eraill							
		179					

POPULATION	2011	2021
Cyfanswm	91,075	92,276
16 oed ac is	22,112	20,946
Dros 65	16,370	19,155
Aelwydydd un person – dros 66 oed		5,694

ENVIRONMENT	
Ardal cilomedr2	126
Adeiladau cofrestredig Cadw	260
Cofebion cofrestredig	21
Tyrrau uchel	3

RHONDDA CYNON TAF

	GORSAFOEDD TÂN AC ACHUB LLAWN AMSER/AR ALWAD	3	GORSAFOEDD TÂN AC ACHUB AR ALWAD	6
	10 Tonyppandy / 15 Pontypridd / 17 Aberdâr		9 Treorci / 11 Glynrhedynnog / 13 Gilfach Goch / 14 Pont-y-clun / 16 Hirwaun / 18 Abercynon	

ATAL		DIOGELU		YMATEB		22/23	23/24
Gwiriadau Tân yn y Cartref	2,371	Archwiliadau a gyflawnwyd	71	Tanau	822	805	
% dros 65	41.0%*	Gwybodaeth risgiau penodol i safle	185	Larymau ffug	1,072	1,277	
Ymgysylltu ag Ysgolion		Ysgolion a gynhelir (meithrin, cynradd, uwchradd, arbennig)	113	GTFf	156	157	
190 sesiwn	6,202 o bobl ifanc	*(oed heb ei ddatgan 31%)					
GGA Eraill							
		570					

POPULATION	2011	2021
Cyfanswm	234,410	237,651
16 oed ac is	56,356	54,510
Dros 65	40,073	46,626
Aelwydydd un person – dros 66 oed		14,049

ENVIRONMENT	
Ardal cilomedr2	424
Adeiladau cofrestredig Cadw	373
Cofebion cofrestredig	89
Tyrrau uchel	2

BRO MORGANNWG

	GORSAFOEDD TÂN AC ACHUB LLAWN AMSER	1	GORSAFOEDD TÂN AC ACHUB LLAWN AMSER/AR ALWAD	1	GORSAFOEDD TÂN AC ACHUB AR ALWAD	2
	22 Penarth		20 Y Barri		04 Y Bont-faen / 19 Llanilltud Fawr	

ATAL		DIOGELU		YMATEB		22/23	23/24
Gwiriadau Tân yn y Cartref	1,399	Archwiliadau a gyflawnwyd	56	Tanau	372	289	
% dros 65	41.0%*	Gwybodaeth risgiau penodol i safle	192	Larymau ffug	676	751	
Ymgysylltu ag Ysgolion		Ysgolion a gynhelir (meithrin, cynradd, uwchradd, arbennig)	53	GTFf	90	89	
129 sesiwn	6,022 o bobl ifanc	*(oed heb ei ddatgan 37%)					
GGA Eraill							
		290					

POPULATION	2011	2021
Cyfanswm	126,336	131,939
16 oed ac is	30,305	29,953
Dros 65	23,055	28,990
Aelwydydd un person – dros 66 oed		8,491

ENVIRONMENT	
Ardal cilomedr2	335
Adeiladau cofrestredig Cadw	743
Cofebion cofrestredig	113
Tyrrau uchel	8



Archwiliadau 2023-24 Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Archwiliad o gyfrifon

Bob blwyddyn mae Archwilio Cymru'n archwilio datganiadau ariannol y Gwasanaeth. Mae archwiliad o'n cyfrifon ar gyfer 2023-2024 wedi'i ohirio gan Archwilio Cymru o'r dyddiad cau arferol o'r 31ain o Orffennaf i'r 30ain o Dachwedd. Cyhoeddir yr Hysbysiad Cwblhau cysylltiedig unwaith y bydd yr archwiliad wedi'i gwblhau.

	Archwiliwyd	Archwiliwyd	Archwiliwyd
	2022-2023	2023-2024	2024-2025
Cyfrifyddiaeth	£MILIWN	£MILIWN	£MILIWN
Costau yn ymwneud â gweithwyr	67.0	70.6	73.7
Costau yn ymwneud ag adeiladau	5.6	6.4	7.2
Treuliau hyfforddi	1.7	1.6	1.8
Cyflenwadau a gwasanaethau	6.2	6.5	5.8
Costau sy'n ymwneud â thrafnidiaeth	1.6	1.6	1.7
Gwasanaethau cytundebu	1.2	1.8	1.4
Costau cyfalaf / rhentu ar brydles	4.6	5.0	5.3
Incwm	-5.9	-1.6	-1.1
Cyfanswm	82.0	91.9	95.8

Ein Cyllideb ar gyfer 2024 - 2025



Grant Menter Cyllid Preifat	£886k
Rhaglen Gyfalaf	
Eiddo	£5.8m
Cerbydau	£2.4m
Offer	£195k
Offer TGCh	£290k

Archwiliadau Mewnol

Mae ein rhaglen archwilio fewnol yn rhan annatod o'n proses wella, gan ddarparu persbectif gwrthrychol ar agweddau ar ein gwasanaeth. Cynhelir yr archwiliadau hyn gan TIAA, ein harchwilydd mewnol dan gontract. Mae pob archwiliad yn asesu maes gweithgaredd yn erbyn pedair lefel o sicrwydd (sylweddol, rhesymol, cyfyngedig neu ddim), ac yn darparu argymhellion i fynd i'r afael â meysydd i'w gwella. Mae'r camau gweithredu argymhelliad yn cael eu cofnodi yn ein System Gwybodaeth Rheoli Busnes (SGRh B) lle cânt eu monitro nes bod y gweithredu wedi'i gwblhau.

Yn ystod 2023-2024, amserlennwyd 12 o archwiliadau, gydag adroddiadau wedi'u derbyn ar gyfer saith, dau ohonynt wedi'u graddio'n sylweddol, gyda phedwar wedi'u graddio'n sicrwydd rhesymol ac un wedi'i raddio'n sicrwydd cyfyngedig.

Cyfnod Amser	Enw'r Archwiliad	Lefel Sicrwydd
2023-2024	Gweithredu 0365	Sicrwydd rhesymol
2023-2024	Airwave/rhwydwaith gwasanaeth brys	Gohiriwyd tan 2024-2025
2023-2024	Asedau ffonau symudol	Sicrwydd rhesymol
2023-2024	Rheolaeth gyllidebol	Sicrwydd sylweddol
2023-2024	Dyfarniad cyflog Core - HR	Disgwyl sylwadau'r UDA
2023-2024	Gwefru cerbydau trydan	Sicrwydd cyfyngedig
2023-2024	Strategaeth ystadau - cydymffurfiaeth eiddo	Disgwyl sylwadau'r UDA
2023-2024	Rheolaeth iechyd a diogelwch	Cyfeiriwyd yn ôl at TIAA - disgwyl am adborth
2023-2024	Sicrwydd data TGCh	Cyfeiriwyd yn ôl at TIAA - disgwyl am adborth
2023-2024	Pensiynau	Sicrwydd sylweddol
2023-2024	Ymweliadau â gorsafoedd	Sicrwydd rhesymol
2023-2024	Cynaliadwyedd	Sicrwydd rhesymol

Asesiad Allanol:

Mae'r Comisiynwyr wedi adnabod yr angen am ddarlun cyflawn o berfformiad y Gwasanaeth i ategu'r Adolygiad Annibynnol i Ddiwylliant. Felly gofynnwyd i Arolygiaeth Cwnstablaieth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS) gynnal asesiad yn seiliedig ar y fframwaith a ddatblygwyd ar gyfer arolygiadau o GTA yn Lloegr. Ar hyn o bryd yn y drydedd rownd o arolygiadau annibynnol ers 2018, mae'r adroddiadau hyn yn darparu meincnod i fonitro cynnydd, gan amlgu meysydd o arfer dda yn ogystal â meysydd lle mae angen gwella.

Mae tri maes asesu allweddol:

- y gwasanaeth gweithredol a ddarperir i'r cyhoedd (gan gynnwys atal, amddiffyn ac ymateb);
- effeithlonrwydd y Gwasanaeth (pa mor dda y mae'n darparu gwerth am arian, yn dyrannu adnoddau i gyfateb â risg, ac yn cydweithio â gwasanaethau brys eraill); a
- pha mor dda y mae'r Gwasanaeth yn gofalu am ei bobl (pa mor dda y mae'n hyrwyddo ei werthoedd a'i ddiwylliant, yn hyfforddi ei staff ac yn sicrhau bod ganddynt y sgiliau angenrheidiol, yn sicrhau tegwch ac amrywiaeth i'r gweithlu ac yn datblygu arweinyddiaeth a gallu gwasanaeth).

Er nad oes arolygiad neu asesiad o'r math hwn wedi'i gynnal eto o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru, mae cyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru (gan gynnwys iechyd, addysg a phlisma) yn cael eu harolygu'n rheolaidd er mwyn caniatáu i'r cyhoedd weld pa mor dda y mae eu gwasanaethau lleol yn perfformio ac yn gwella flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Bydd yr asesiad yn galluogi'r Comisiynwyr, y Gwasanaeth a Llywodraeth Cymru i gael dealltwriaeth gynhwysfawr o berfformiad cyfredol y sefydliad a fydd yn darparu llinell sylfaen i fesur ein gwelliant, meincnodi'n well yn erbyn GTAau eraill, ac yn y pen draw yn sicrhau canlyniadau gwell i'r cyhoedd.

Ein themâu strategol

Mae'r tabl isod yn nodi'r wyth thema strategol sy'n sail i'n Cynllun Strategol 2020-2030. Mae ein hamcanion gwella blynyddol wedi'u hadeiladu o fewn y themâu hyn, sydd hefyd yn strwythuro ein blaenoriaethau a'n cynllunio wrth i ni weithio i gyflawni ein datganiad cenhadaeth:

“I wneud De Cymru'n fwy diogel, wrth leihau risg.”

Rydym wedi mapio'r themâu hyn i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (DLI CD) i ddangos sut mae ein blaenoriaethau'n cyfrannu at y saith nod llesiant.

	Cymru gydnherth		Cymru o gymunedau cydlynus		Cymru iachach
	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang		Cymru lewyrchus		Cymru sy'n fwy cyfartal
	Cymru â ddiwylliant bywiog ac lle mae'r Gymraeg yn ffynnu				

Themâu Strategol

Eich cadw'n ddiogel Canolbwyntio ar waith atal i helpu lleihau'r angen i chi ein galw ni. Ymateb i'ch argyfwng Sicrhau ein bod ni'n ymateb yn gyflym ac yn effeithiol pan fydd ein hangen arnoch. Gweithio gyda'n partneriaid Gweithio gyda BGC De Cymru a phartneriaid eraill i ddarparu gwasanaeth tân ac achub sy'n cwrdd â'ch anghenion. Cynnwys a chyfathrebu Sicrhau bydd ein holl gymunedau a'n staff ynghlwm wrth helpu ni i ddarparu gwasanaeth ardderchog.		Diogelu ein hamgylchfyd Sicrhau bod ein holl gymunedau a staff yn cael eu cynnwys wrth ein helpu i ddarparu gwasanaeth rhagorol Defnyddio technoleg yn dda Edrych yn barhaus i ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf i wella ein gwasanaeth i chi Gwerthfawrogi ein pobl Cynnal gweithlu amrywiol sy'n cynrychioli eich cymuned, a hyfforddwyd yn dda ac sy'n ymroddedig i gyflawni ein gwasanaeth. Parhau i weithio'n effeithion Sicrhau bod ein gwasanaeth yn rhoi gwerth am arian ac yn amlwg yn atebol.	
---	--	---	--

Eich cadw'n ddiogel



Beth yw ystyr hwn?

Drwy eich cadw'n ddiogel byddwn yn deall y risgiau yn ein cymunedau lleol ac yn canolbwyntio ar atal er mwyn lleihau'r risg o dân, anafiadau, damweiniau traffig ffyrdd a digwyddiadau sy'n ymwneud â dŵr. Rydym yn cyflawni hyn trwy ddefnyddio data sy'n seiliedig ar risg, gweithio gyda'n partneriaid, ymgysylltu â'n cymunedau, addysgu cenedlaethau'r dyfodol a thargeddu gwybodaeth am leoliadau bregus.

Byddwn yn eich cadw'n ddiogel wrth:

- **OSTWNG** effaith galwadau ffug ar ein hadnoddau
- **LLEIHAU** nifer y tanau yn y cartref a deall eu hachosion a'u hymddygiadau
- **LEIHAU** nifer y tanau bwriadol
- **LLEIHAU** nifer y gwrthdrawiadau traffig ffyrdd (GTff)
- **GWELLA** diogelwch yn y dŵr ac o'i amgylch
- **GWELLA** diogelwch tân mewn adeiladau yn ein cymunedau

Beth oeddem yn bwriadu ei wneud yn 2023-2024 a'r hyn rydym wedi'i gyflawni hyd yn hyn:

Parhau i weithio gyda phartneriaid ar fentrau i leihau nifer y tanau bwriadol - bydd hyn yn adeiladu ar bartneriaethau sydd eisoes yn llwyddiannus ac yn sicrhau bod negeseuon diogelwch yn cyrraedd y cyrhaeddiad ehangaf ar draws cymunedau De Cymru.

Rydym yn gweithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC), Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), a gweithredwyr gwastraff i fapio pob Awdurdod Unedol (AU) i sefydlu'r cysylltiadau rhwng amlder casglu sbwriel a thanau bwriadol. Hefyd, mae aelodau'r Tim Lleihau Llosgi Bwriadol (LILIB) wedi ymwreiddio eu hunain mewn gorsafoedd heddlu lleol i greu perthnasoedd gwaith agosach gyda'r BGCau.

Gweithiodd ART gyda chwe ysgol gynradd ar draws Rhondda Cynon Taf (RhCT) a phartneriaid gan gynnwys CNC a Heddlu De Cymru (HDC) i gyd-ysgrifennu llyfr plant yn tynnu sylw at y peryglon y gall tanau bwriadol eu hachosi.



I nodi dechrau'r tymor tanau gwyllt, cyflwynwyd Lula a'r Fflam yn ogystal â rhaglen ddogfen a llyfrau llafar (Cynhyrchwyd deunyddiau Cymraeg a Saesneg (gydag iaith arwyddion) hefyd gan Community Storywork.

Ail-lansiwyd Ymgyrch Dawns Glaw ar Ddydd Gŵyl Dewi, gyda chais gwladgarol i gydweithio i ddileu effaith tanau glaswellt ar draws Cymru ac adeiladu tirwedd Gymreig iachach a mwy hydwyth ar gyfer y dyfodol.

Mae Rheolwyr Gorsaf wedi bod yn gyrru mentrau trwy eu Cynlluniau Rheoli Risg Cymunedol (CRhRC) i ddeall a nodi peryglon yn well, dadansoddi risgiau a llywio penderfyniadau a dilysu trwy ymgysylltu â'r cyhoedd yn eu hardaloedd gorsafoedd.

Eich cadw'n ddiogel



Dod o hyd i ffyrdd newydd o hyrwyddo negeseuon diogelwch – er enghraifft, creu “gemau” rhyngweithiol newydd i ymgysylltu â phlant a hybu diogelwch yn y cartref.

Mae ein timau Ymyrraeth Ieuenctid a Diogelwch Tân wedi caffael dyfeisiau electronig i lawrlwytho gemau addysgol sy'n canolbwyntio ar risgiau tân, gyda chynlluniau i ddatblygu ein meddalwedd wedi'i deilwra ein hunain ar gyfer ein cymunedau. Hefyd, mae'r fîm hefyd wedi creu pecyn addysgol “penderfyniadau rhithwir” gan ddefnyddio offer realiti electronig a rhithwir i ddysgu pwysigrwydd dewisiadau cadarnhaol. Nod menter newydd o'r enw Diffoddwr Tân Stryd yw ymgysylltu â phobl ifanc mewn cymunedau ymgysylltu isel, gan annog ffyrdd iachach o fyw a gwydnwch. Mae prosiect REFLECT yn creu partneriaethau â sefydliadau ar draws De Cymru i addysgu ac ymgysylltu â phobl ifanc 11-25 oed ar beryglon llosgi bwriadol, troseddau ceir, ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan feithrin perthnasoedd cymunedol a gwell penderfyniadau bywyd. Mae fîm y Cyfryngau a Chyfathrebu yn parhau i hyrwyddo ymgyrchoedd, mentrau a diweddariadau diogelwch i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o risgiau.

NOD MENTER NEWYDD O'R ENW DIFFODDWR TÂN STRYD YW YMGYSYLLTU Â PHOBL IFANC MEWN CYMUNEDAU YMGYSYLLTU ISEL, GAN ANNOG FFYRDD IACHACH O FYW A GWYDNWCH.

Gweithio i ddeall y rhai hynny sydd o dan risg fwyaf yn ein cymunedau – trwy ddeall risg yn ein cymunedau, gallwn sicrhau bod ein hadnoddau lleihau risg yn cael eu targedu'n well a chyrraedd y rhai sydd angen ein cymorth fwyaf.

Mae'r prosiect Gwerthuso Dysgu ar ôl Tân (LEAF) yn casglu data gan unigolion sydd wedi profi tanau damweiniol mewn cartrefi i wella gwasanaethau a dulliau diogelwch, ac i ddarparu cymorth wedi'i dargedu trwy ein hymarferwyr Diogelwch Cymunedol. Trwy gydweithio â phartneriaid a defnyddio setiau data megis Exeter, Acorn, a data cyfrifiad, mae'r fîm yn nodi'r aelodau cymunedol mwyaf agored i niwed. Mae cael cytundebau rhannu data gyda sefydliadau megis GIG yn ein helpu i nodi'r rhai sydd fwyaf mewn perygl yn ein cymunedau, er enghraifft ffactorau demograffig a risg i drigolion 65 oed neu hŷn. Mae Acorn yn cyfuno data daearyddol a demograffig i baru mathau o dai â data digwyddiadau tân, gan helpu i nodi meysydd risg uchel a gwella ymyriadau diogelwch tân ill dau.

Archwilio cyfleoedd i wella ein dull o gasglu gwybodaeth am adeiladau a lleoliadau eraill – drwy ddatblygu ein gallu ymchwilio i dân, rhaglen archwilio uchel, cynlluniau rheoli tir a chasglu gwybodaeth gan griwiau mewn digwyddiadau gweithredol, byddwn yn gwneud ein cymunedau yn fwy diogel a gwella diogelwch diffoddwyr tân.

Mae'r fîm Diogelwch Tân i Fusnesau wedi sefydlu fforwm gyda Llywodraeth Cymru, Gwasanaethau Tân ac Achub eraill Cymru (GTA) a pheirianwyr tân i greu rhaglen archwilio ar sail risg ar gyfer adeiladau uchel. Maent yn parhau i archwilio adeiladau preswyl uchel am ddiffygion strwythurol yn unol â diwygiadau i'r ddeddfwriaeth. Mae system gwybodaeth rheoli tir yn cael ei datblygu i rannu data ar leoliadau risg uchel, gyda data ychwanegol bellach ar gael trwy Derfynellau Data Symudol y Gwasanaethau (TDS). Mae'r fîm Ymchwilio Tân yn cydweithio â'r Swyddfa Diogelwch Cynnyrch a Safonau i nodi tueddiadau, rhannu data i wella diogelwch defnyddwyr. Mae rhaglen beilot wedi cychwyn mewn chwe gorsaf dân sy'n cynnwys criwiau gweithredol yn cynnal gwiriadau diogelwch tân mewn eiddo masnachol llai, gyda data'n cael ei fonitro i wella diogelwch diffoddwyr tân.



Hyrwyddo ymwybyddiaeth o ddiogelwch dŵr ymhlith ein cymunedau – byddwn yn targedu lleoliadau a grwpiau sydd mewn mwy o berygl drwy rannu gwybodaeth â'n partneriaid.

Cydweithiodd ein fîm Diogelwch Dŵr â Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub (RNLI) gan ganolbwyntio ar negeseuon atal boddi yn Criw Craff (gweithdai sgiliau bywyd hanfodol) i blant ym mlynnyddoedd 6 a 7. Lansiodd y fîm hefyd y fenter Waterside Responder, gan gynnig arweiniad am ddim a llinellau taflu i fusnesau ger dŵr i atal achosion o foddol damweiniol. Gwellwyd cyfathrebu negeseuon diogelwch dŵr gan ddefnyddio data o ffynonellau amrywiol, gan gynnwys y Gronfa Ddata Digwyddiadau Dŵr (WAID) Mae ein timau'n parhau i weithio'n agos gyda Diogelwch Dŵr Cymru a'r RNLI i dargedu meysydd risg penodol a hybu diogelwch.

Ehangu ein hymgyrchoedd Opsiynau Diogelwch ar y ffyrdd 30-20, mentrau Gwregysau Diogelwch a mentrau Domino – bydd ein mentrau'n parhau i hyrwyddo negeseuon ein hymgyrch Pump Angheuol gan amlygu'r prif ffactorau cyfrannol sy'n achosi gwrthdrawiadau ar y ffyrdd difrifol.

Ym Medi 2023, cyflwynodd Cymru leihad terfyn cyflymder o 30-20mya. Bu ein gorsafoedd tân a'n Tîm Diogelwch Ffyrdd yn cydweithio â phartneriaid i gyflwyno sesiynau addysgol mewn perthynas â'r newid hwn ac ymgyrchoedd diogelwch ffyrdd eraill. Mae cyflwyniad Domino yn parhau i fod yn adnodd effeithiol i addysgu myfyrwyr ar effeithiau pwysau gan gyfoedion a diffyg profiad ar yrru ac ymddygiad teithwyr, gan amlygu negeseuon allweddol ymgyrch y Pump Angheuol: cyflymder, ffonau symudol, gwregysau diogelwch, canolbwyntio, a gyrru dan ddylanwad alcohol a chyffuriau.



MAE CYFLWYNIAD DOMINO YN PARHAU I FOD YN ADNODD EFFEITHIOL I ADDYSGU MYFYRWYR AR EFFEITHIAU PWYSAU GAN GYFOEDION A DIFFYG PROFIAD AR YRRU AC YMDYGIAD TEITHWYR.

Ymateb i'ch argyfwng



Beth yw ystyr hwn?

Mae hyn yn canolbwyntio ein hymrwymiad i ymateb yn gyflym i argyfyngau gyda'r adnoddau cywir gan sicrhau ein bod yn barod i ddiwallu anghenion esblygol ein cymunedau. Mae hyn yn cynnwys poblogaeth sy'n heneiddio, cefnogi asiantaethau eraill gydag ymatebion arbenigol, effeithiau newid yn yr hinsawdd, a datblygiadau mewn technoleg fel tanau batri lithiwm-ion.

Byddwn yn ymateb i'ch argyfwng wrth:

- **YMATEB** yn effeithiol pan fyddwch wir ein hangen
- **GWNEUD** popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod criwiau ein System Dyletswydd Ar Alwad (SDdAA) ar gael
- **HYFFORDDI** ein Diffoddwyr Tân, staff Cyd-rheoli Tân a staff eraill i ymateb i risgiau presennol ac yn y dyfodol yn ein cymunedau

Beth oeddem yn bwriadu ei wneud yn 2023-2024 a'r hyn rydym wedi'i gyflawni hyd yn hyn:

Datblygu a chyflwyno peiriannau tân 4x4 â manyleb newydd – i wella ein gallu i ymateb gydag ystwythder ychwanegol.

Fe brynnon ni saith peiriant tân newydd a oedd yn gallu danfon dros 3,000 litr o ddŵr y funud gyda lle i hyd at chwe aelod o'r criw. Mae gan yr offer dylunio newydd allu gyriant pedair olwyn i ymateb yn fwy effeithiol mewn amodau anffafriol.



Sicrhau bod ein systemau cofnodi a rhannu gwybodaeth risg yn cefnogi ein gweithgareddau yn effeithiol – bydd adolygu ein gwaith casglu a choladu gwybodaeth yn cadarnhau bod gwybodaeth ar gael pan fydd ei hangen ar y rhai sydd ei hangen pan fo angen.

Mae strwythur ein gweithgorau gweithredol wedi'i adolygu a'i ddiwygio i wella prosesau gwneud penderfyniadau ac i gynnal trosolwg effeithiol. Mae Adrodd ar gyfer Gwybodaeth Risg Safle Penodol (GRSP) wedi gwella'r wybodaeth sydd ar gael i'n criwiau, wrth baratoi ar gyfer System Cudd-wybodaeth Weithredol (SCWW) newydd sydd i'w rhoi ar waith dros y tair blynedd nesaf. Mae tabledi electronig hefyd yn cael eu treialu mewn chwe gorsaf dân i wella'r broses o rannu data ac i gasglu a gweld gwybodaeth risg. Mae'r adran Lleihau Risg wedi datblygu system newydd i wella rhannu gwybodaeth rhwng gwahanol dimau er mwyn nodi a chefnogi'r rhai sydd â'r angen mwyaf yn ein cymunedau.

Cynnal ymchwil i ymateb brys i danau sy'n ymwneud â cherbydau trydan – bydd hyn yn cefnogi ein datblygiad i gwrdd â risgiau a gofynion newidiol.

Fe wnaethom sefydlu gweithgor i fynd i'r afael ag ymatebion brys i danau yn ymwneud â cherbydau trydan a batris lithiwm. Mynychodd y Tîm Peiriannau ac Offer Gweithredol (TPOG) ddigwyddiadau diwydiant ac ymgysylltu â gweithgynhyrchwyr, gan arwain at brynu a threalu dosbarthu chwe blanced cerbyd trydan (BCT) mewn gorsafoedd Tendr Achub, gyda hyfforddiant cyfatebol. Yn ogystal â hyn, diweddarwyd gweithdrefnau Cyd-reoli Tân (CRT) i sicrhau bod BCT yn cael eu hanfon i danau cerbydau trydanol (CT). Mae BCT hefyd wedi gosod mewn lleoliadau risg uwch er enghraifft mynedfeydd Twneli Bryn-glas a Gibraltar.

Adolygu strwythur CRhT a gweithgareddau recriwtio – er mwyn parhau i warantu ymateb effeithlon ac effeithiol i alwadau brys gan ein tîm profiadol a hyfforddedig.

Fel y pwynt cyswllt cyntaf, sy'n rhan annatod o ymateb i argyfyngau, mae Cyd Reoli Tân (CRT) wedi recriwtio saith aelod newydd i ateb y galw a gwella gwytnwch. Mae ymgyrch recriwtio newydd hefyd wedi'i threfnu ar gyfer dechrau 2024-2025 Mae'r isafswm criwio ar wylfeydd wedi'i godi o chwech i saith, gyda chynlluniau i gynyddu i wyth ac uchafswm o 12 criw fesul gwylfa yn 2024-2025.



Ymateb i'ch argyfwng

Sicrhau bod ein rhaglenni hyfforddi yn paratoi ein personél ar gyfer heriau'r dyfodol – yn ogystal ag ystyried hyfforddiant gweithredol a'r galw ar y Gwasanaeth yn y dyfodol, byddwn yn cefnogi staff yn eu dewis lwybrau datblygu gyrfa.

Mae wyth aelod o Gyd-reoli Tân (CRT) wedi cymhwyso fel Ymgynghorwyr Tactegol Cyfathrebu Airwave a phedwar fel Swyddogion Cyswllt Rheoli Cenedlaethol, gyda ffocws ar ddatblygiad proffesiynol parhaus. Hefyd mewn cydweithrediad â Gwobrau Sgiliau er Cyfiawnder, Tim Datblygu Gweithredol GTADC yw'r Gwasanaeth Tân ac Achub cyntaf i ddatblygu cymwysterau achrededig ar gyfer ymateb i danau gwyllt.

Ein Gweithgor Tyrrau Uchel, gan ddefnyddio canfyddiadau o Adolygiad Thematig Llywodraeth Cymru "Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru: Mae "Dysgu o Grenfell" a Chanllawiau Gweithredol Cenedlaethol, wedi arwain at greu Gweithdrefn Weithredol Safonol (GWS) a Chanllawiau Gwacáu newydd, sy'n cael eu haddysgu mewn senarios byd gwirioneddol. Mae 23 o ymarferion wedi'u cynnal gyda staff Gweithredol a CRT, ac mae dau ymarfer ychwanegol wedi'u cwblhau gyda gorsafoedd Ar Alwad Merthyr ac Abersychan, a bydd pob gorsaf Ddyletswydd Gyflawn wedi'u derbyn hyfforddiant erbyn mis Mawrth 2025 Yn ogystal â hyn, mae rhaglen hyfforddi lleni mwg am ddefnyddio Offer Anadlu (OA) wedi'i datblygu ac mae cwrs Swyddogion Tactegol Tyrrau Uchel yn cael ei sefydlu mewn cydweithrediad â Gwasanaeth Tân ac Achub Gorllewin Canolbarth Lloegr.

Archwilio cyfleoedd i gynyddu'r hyfforddiant ar-lein a ddarperir i ddatblygu cymhwysedd gweithredol – bydd hyn yn caniatáu i hyfforddiant gael ei ddarparu'n fwy hyblyg, ei integreiddio â gweithgareddau gweithredol, a lleihau'r angen i deithio i leoliad canolog.

Mae pecynnau hyfforddi ar-lein ar gyfer sgiliau craidd, achub anifeiliaid mawr, trawma, offer anadlu (BA), a gwrthdrawiadau traffig ffyrdd (GTFf) bellach ar gael i'r holl staff ar y fewnwyd. Mae hyfforddiant ar ffurf gweminar ar gyfer cerbydau trydan, gwrthdrawiadau ar y ffyrdd, a diweddariadau OA hefyd yn cael ei ddarparu drwy law Microsoft Teams, gan ddarparu hyblygrwydd ar gyfer gwahanol wylfeydd gorsafoedd, gan helpu i leihau ein hól troed carbon ymhellach. Mae'r Tim Datblygu ac Adolygu Gweithredol (TDAG) wedi darparu hyfforddiant ar-lein i reolwyr gorsafoedd a chriwiau am eu rolau, themâu digwyddiadau allweddol a systemau adrodd yn ôl er mwyn gwella dysgu gweithredol ar lawr gwlad. Mae seminarau i Swyddogion Iau hefyd yn cael eu cyflwyno ar-lein i ategu cyfarfodydd wyneb yn wyneb, gan sicrhau bod gwybodaeth hanfodol yn cael ei lledaenu'n gyflym.



**HEFYD MEWN
CYDWEITHREDIAD Â
GWOBRAU SGILIAU ER
CYFIAWNDER, TÎM DATBLYGU
GWEITHREDOL GTADC
YW'R GWASANAETH TÂN AC
ACHUB CYNTAF I DDATBLYGU
CYMWYSTERAU ACHREDEDIG
AR GYFER YMATEB I DANAU
GWYLLT.**

Diffoddwyr Tân yn mynd i adeilad yn ystod ymarferiad hyfforddi Offer Anadlu



Hyrwyddo swyddi gwag trwy ddefnydd ehangach o gyfryngau cymdeithasol a gweithgareddau ymgysylltu wyneb yn wyneb – trwy gynnal calendr o sesiynau Ymarfer gyda'r Wylfa a chyfranogaeth mewn ffeiriau gyrfaoedd, byddwn yn codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd gyrfa; mae recriwtio Diffoddwyr Tân Ar Alwad wedi parhau yn flaenoriaeth.

Roedd gorsafoedd tân yn hyrwyddo cyfleoedd recriwtio mewn digwyddiadau cymunedol lleol ac yn parhau i gydweithio â Sgiliau er Cyfiawnder i nodi ymgeiswyr addas, gan eu gwahoddi i nosweithiau ymarfer i gwrdd â chriwiau a chael profiad o agweddau ar rôl y Diffoddwr Tân. Lansiodd y Tim Gyfryngau a Chyfathrebu ymgyrch recriwtio newydd ar gyfer Diffoddwyr Tân Ar Alwad, gan ddefnyddio'r hashnod #GallwchChi ac yn cynnwys fideo o staff cyfredol yn rhannu eu profiadau. Mae cyrsiau recriwtiaid newydd Diffoddwyr Tân Ar Alwad wedi cael eu treialu dros dri phenwythnos i leihau'r angen am gael amser i ffwrdd o'r brif gyflogaeth, er mwyn asesu'r effaith ar niferoedd cynyddol ymgeiswyr.

Recriwtio, cynnal, datblygu ac ymarfer gallu'r Gwasanaeth Tân mewn Argyfwng, gan gynnwys Diffoddwyr Tân Cynorthwyol a'r cysyniad o weithrediadau. Gweithio gyda chontractwr allanol i sicrhau bod partneriaeth waith yn effeithiol.

Mae Ymgyrch Ategol yn gynllun strategol i sicrhau bod gwasanaethau tân ac achub brys yn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol o dan Ddeddf y Gwasanaeth Tân ac Achub 2004 a Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, gan ganolbwyntio ar barhad busnes a chadw ein cymunedau lleol yn ddiogel. Mae'r cynllun yn cynnwys recriwtio mwy o ddiffoddwyr tân cynorthwyol a phersonél rheoli, ynghyd â hyfforddiant ac ymarferion parhaus ar gyfer y rolau hyn a rheolwyr strategol.

Gweithio â phartneriaid



Beth yw ystyr hwn?

Mae partneriaethau cryf yn ein helpu i wella gwasanaethau drwy gydweithio i gyflwyno darpariaethau cydgysylltiedig, atal dyblygu adnoddau a gwneud y mwyaf o arian cyhoeddus ar gyfer ein cymunedau yn Ne Cymru. Mae cydweithredu yn gwella profiadau'r cyhoedd trwy well dealltwriaeth ac atgyfeiriadau rhwng sefydliadau. Trwy integreiddio partneriaeth gymdeithasol i'n nodau gwneud penderfyniadau a llesiant, rydym yn sicrhau bod staff, eu cynrychiolwyr, a phartneriaid yn cael dweud eu dweud yn ein cynlluniau gwella a sut rydym yn darparu gwasanaethau gyda'n gilydd.

Sut byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid:

- **GWEITHIO** â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) i gefnogi ein cymunedau
- **GWEITHIO** â'n partneriaid i ddarparu ein gwasanaethau lle maent eu hangen
- **YN BARHAOL**, adolygu ac adeiladu ar ein partneriaethau cyfredol gan ymgorffori egwyddorion partneriaethau cymdeithasol

Beth oeddem yn bwriadu ei wneud yn 2023-2024 a'r hyn rydym wedi'i gyflawni hyd yn hyn:

Wrth i BGCau lansio eu Cynlluniau Llesiant Lleol 2023-2028, byddwn yn sicrhau ein hymgysylltiad parhau – bydd hyn yn ein galluogi i ddeall yn well yr heriau a wynebir gan ein cymunedau ac i gefnogi'r rhai sydd â'r angen mwyaf. Mae ein cydweithrediad â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) yn golygu bod uwch arweinwyr o GTADC yn mynychu cyfarfodydd i ddatblygu strategaethau a chefnogi ein cymunedau lleol. Mae Rheolwyr Gorsaf yn cael eu neilltuo i is-grwpiau BGC i sicrhau ein bod yn cael ein cynrychioli ar bob lefel. Mae hyn yn gwella ein gwybodaeth, ein dealltwriaeth, ac yn helpu i sicrhau bod ein gwaith yn alinio ac yn cryfhau ein partneriaethau.



Gweithio mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan mewn Diwrnod '999' ym Mlaenau Gwent ynghynt eleni.



MAE RHEOLWYR GORSAF YN CAEL EU NEILLTUO I IS-GRWPIAU BGC I SICRHAU EIN BOD YN CAEL EIN CYNRYCHIOLI AR BOB LEFEL. MAE HYN YN GWELLA EIN GWYBODAETH, EIN DEALLTWRIAETH, AC YN HELPU I SICRHAU BOD EIN GWAITH YN ALINIO AC YN CRYFHU EIN PARTNERIAETHAU.

Mapio ein gweithgareddau gwaith partneriaeth gyfredol a chytundebau rhannu data – bydd hyn yn ein helpu i nodi a datblygu cyfleoedd newydd ar gyfer cydweithio

Mae ein tîm Diogelwch Cymunedol wedi adolygu trefniadau partneriaeth, ac mae Swyddog Partneriaeth newydd yn ei le i nodi cyfleoedd yn y dyfodol. Mae proses atgyfeirio ar waith gydag Ambiwlans Sant Ioan Cymru, ac mae gwaith yn parhau gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gynorthwyo cleifion bariatrig gan ddefnyddio canllawiau Codi a Chludo GIG Cymru Gyfan i nodi llwybr atgyfeirio. Rydym yn cefnogi Grŵp Ystadau'r Gwasanaethau Brys ar y Cyd (YGBC) i ddod o hyd i eiddo a rennir, gan ddefnyddio Map Data Cymru ar gyfer treialon rhannu gwybodaeth. Mae cydweithio â Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) wedi arwain at gytundeb rhannu data drafft ar gyfer digwyddiadau trawsffiniol, a fydd yn gwella galluoedd ymateb.

Rydym yn y cyfnod cynharaf o rannu data ag Ymddiriedolaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i gydwethredu ar gudd-wybodaeth i hysbysu penderfyniadau strategol a chynlluniau busnes.

Adolygu a gwella'r berthynas â phartneriaid Fforwm Hydwythdedd Lleol (Ff HLI) a Hydwythdedd Cenedlaethol yng Nghymru - i sicrhau dull cydlynol a chydweithredol o ymdrin â risgiau, bygythiadau a niwed i'n cymunedau yn unol â risgiau sy'n dod i'r amlwg.

Mae grwpiau Ff HLI yn bartneriaethau aml-asiantaeth sy'n cynnwys cynrychiolwyr o wasanaethau cyhoeddus lleol, gan gynnwys y gwasanaethau brys, awdurdodau unedol, GIG, ac eraill. Gelwir yr asiantaethau hyn yn Ymatebwyr Categori 1, yn unol â diffiniad Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl. Mae gennym gynrychiolaeth ym mhob grŵp i sicrhau dulliau cysylltiedig o ymdrin â risgiau sy'n dod i'r amlwg, bygythiadau a niwed posibl i'n cymunedau lleol.

Adolygu ein trefniadau gweithio gydag asiantaethau allanol i sicrhau cefnogaeth addas ar gyfer ein darpariaethau iechyd meddwl ar gyfer staf – i sicrhau ein bod yn cynnig ystod effeithiol o gymorth i'n staff.

Mae ein huned lechyd Galwedigaethol ym Mhont-y-clun yn cynnig gwasanaeth cwnsela i bob cydweithiwr ar gyfer cymorth iechyd meddwl. Yn ychwanegol at hyn, mae gan staff fynediad at y Rhaglen Cymorth i Weithwyr (Rh CG), sy'n darparu ymgynghoriadau ffôn, sgwrsio ar-lein, a chwmsela wyneb yn wyneb, gyda'r opsiwn ychwanegol o atgyfeirio at yr elusen iechyd meddwl genedlaethol MIND. Rydym hefyd yn elwa ar Therapydd Nyrsio o'r Adran Seiciatreg Gyswilt, Ysbyty Athrofaol Cymru, sy'n cynorthwyo i asesu a thrin staff â phroblemau iechyd meddwl fel straen, gorbryder, iselder, Anhwylder Straen Wedi Trawma, a phanig.

Cynnwys a chyfathrebu



Beth yw ystyr hwn?

Rydym yn ymgysylltu â'n cymunedau, rhanddeiliaid a staff wrth ddarparu gwasanaethau rhagorol drwy gynnig amrywiaeth o gyfleoedd i lywio ein gweithgareddau cyfredol ac yn y dyfodol. Rydym yn ymchwilio'n barhaus i ddulliau newydd o rannu gwybodaeth, gan ganolbwyntio'n arbennig ar gysylltu â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol trwy weithgareddau lleol ac ymdrechion ein criwiau i ymgysylltu â'r cyhoedd a hyrwyddo gwasanaethau.

Byddwn yn ymgysylltu ac yn cyfathrebu drwy:

- **YMGYSYLLTU** â'n cymunedau, gan wneud yn siŵr eu bod yn cael dweud eu dweud yn yr hyn a wnawn
- **HELPU** cadw ein cymunedau'n ddiogel wrth ddarparu addysg diogelwch a mynychu digwyddiadau cymunedol
- **SICRHAU** ein bod yn datblygu ac yn hyrwyddo sianeli cyfathrebu o fewn y Gwasanaeth
- **CYDNABOD** rôl partneriaeth gymdeithasol, gan ddatblygu ymhellach berthynas agored a thryloyw gyda rhanddeiliaid

Beth oeddem yn bwriadu ei wneud yn 2023-2024 a'r hyn rydym wedi'i gyflawni hyd yn hyn:

Ehangu a hyrwyddo sianeli sy'n galluogi ein staff a rhanddeiliaid i roi adborth a gwneud sylwadau ar ein cynlluniau a'n gwasanaethau – trwy ddatblygu a hyrwyddo mecanweithiau ymgysylltu ac ymgynghori newydd, byddwn yn gwella ein gallu i dderbyn adborth gan staff ac aelodau o ein cymunedau.

GTADC oedd y Gwasanaeth Tân ac Achub cyntaf i gyflwyno gwasanaeth Taclo'r Tacle ar gyfer adrodd yn gyfrinachol am bryderon yn y gweithle ac ail-lansiwyd y fforwm Shout ar gyfer ymgysylltu â staff yn dilyn cyhoeddi Adroddiad Morris. Rydym hefyd wedi datblygu Fforwm Ieuenctid ar gyfer pobl ifanc 13-18 oed i lunio cynlluniau ar gyfer y dyfodol a threalu mentrau lleihau risg. Mae hygyrchedd ein gwefan wedi'i adolygu gan ddefnyddio Mynegai Silktide (safonau ar gyfer hygyrchedd ar y we), ac mae gwaith yn parhau i wella ei swyddogaethau. Fe wnaethom dreialu dulliau newydd o gyfathrebu i hyrwyddo negeseuon diogelwch a recriwtio gan gynnwys radio a sgriniau digidol ac rydym yn parhau i fonitro llwyddiant ein hymgyrchoedd. Mae cyfathrebu â chydweithwyr ar ffurf sesiynau briffio staff a Sioeau Teithiol Trawsnewid wedi'u cynnal i gynnwys staff mewn cynlluniau a diweddariadau ynghylch cynlluniau newid a thrawsnewid.

Gwella cydlynid ein hymglymiad mewn digwyddiadau a gweithgareddau cymunedol, gan ddarparu cefnogaeth i orsafoedd tân ac achub – bydd hyn yn helpu ein gorsafoedd i ddatblygu eu cyfranogiad lleol a'u rôl o fewn eu cymunedau.

Mae ein gorsafoedd wedi cynyddu eu cyfranogiad mewn digwyddiadau cymunedol lleol i hyrwyddo gwybodaeth am wasanaethau, negeseuon diogelwch, yn ogystal â chyfleoedd recriwtio. Rydym yn parhau i drefnu a chydlynu Diwrnod Gwasanaethau Brys 999 blynyddol ym Mae Caerdydd a chynnal diwrnodau agored mewn Gorsafoedd Lleol ledled De Cymru gyda phartneriaid megis Heddlu De Cymru a Gwasanaethau Ambiwllans Cymru, gan gynnwys arddangosiadau byw a gwybodaeth diogelwch mewn lleoliadau sy'n gyfeillgar i deuluoedd. Rydym yn cynnal digwyddiadau tymhorol megis arddangosfeydd tân gwyllt ar draws De Cymru i ysgogi ymgysylltiad cymunedol. Mae criwiau'n mynychu adeiladau preswyl uchel i roi cyngor ar dân a chynnal gwiriadau diogelwch tân. Fe ddechreuon ni gydag eiddo risg uwch fel rhan o'r fenter hon. Rydym yn parhau i ddatblygu partneriaethau gydag awdurdodau unedol, lleoliadau allweddol a threfnwyr digwyddiadau i sicrhau bod risgiau'n cael eu nodi a'u lliniaru er mwyn cynnal goruchwyliaeth ar gyfer digwyddiadau mawr, ar y cyd â'n fîm Diogelwch Tân i Fusnesau (DTF).

MAE HYGyrCHEDD EIN GWEFAN WEDI'I ADOLYGU GAN DDEFNYDDIO MYNEGAI SILKTIDE (SAFONAU AR GYFER HYGyrCHEDD AR Y WE), AC MAE GWAITH YN PARHAU I WELLA EI SWYDDOGAETHAU.

Rhannu rhagor o wybodaeth am yr ystod o weithgareddau a gyflawnir gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru gan ddefnyddio dulliau digidol ac annigidol – mae cyfrifoldebau gwasanaeth tân ac achub modern yn eang ac, fel corff cyhoeddus yng Nghymru, mae gennym hefyd rôl o ran cyflawni agenda ehangach, yn enwedig o ran Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae cyflawni ein gweledigaeth a'n cenhadaeth i wneud De Cymru'n fwy diogel drwy leihau risg yn ymgorffori llawer o agweddau ar ein gwaith. Rydym yn atal ac yn ymateb i argyfyngau tân, yn ogystal â mynychu digwyddiadau dŵr a llifogydd, achub pobl ac anifeiliaid, darparu gwiriadau diogelwch yn y cartref, addysgu cymunedau a chenedlaethau'r dyfodol, gweithio gyda phartneriaid, cadw busnesau'n ddiogel, mynychu damweiniau trafnidiaeth a chynnal chwilio ac achub trefol. Yn ein holl gynlluniau, penderfyniadau a gweithgareddau rydym yn ymgorffori Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i GTADC gynllunio effaith hirdymor ein penderfyniadau, gweithio yn well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd.

Trwy ein diwrnodau agored mewn gorsafoedd a Diwrnod Gwasanaethau Brys 999 rydym yn arddangos ein sgiliau mewn meysydd craidd eraill o'r Gwasanaeth, gan gynnwys arddangosiadau: achub o dŵr ac achub â rhaff; achub o blatfformau yn yr awyr; a datgylmu anafusion o ddamweiniau cerbydau. Roedd mentrau eraill yn cynnwys creu dwy rôl wirfoddol newydd ynghylch ymgysylltu â'r cyhoedd a negeseuon atal boddi mewn lleoliadau â pheryglon dŵr hysbys. Yn ogystal â hyn gwnaethom barhau i godi ymwybyddiaeth o'n cyfleoedd Diffoddwyr Tân Ar Alwad ledled De Cymru.



Diffoddwyr Tân yn arddangos echdyniad o wrthdrawiad traffig ar y ffyrdd mewn diwrnod agored diweddar.

Lansio pecyn cymorth ymgysylltu safonol i'w ddefnyddio ar draws y Gwasanaeth – bydd hwn yn darparu adnoddau ar gyfer cynllunio, darparu a gwerthuso digwyddiadau a gweithgareddau ymgysylltu eraill. I ddarparu cysondeb yn ein hagwedd tuag at ymgysylltu ac i ganiatáu i ni goladu data ar ddigwyddiadau a meysydd i'w gwella.

Rydym wedi creu pecyn cymorth ymgysylltu sy'n darparu canllawiau cynhwysfawr ar gyfer cynllunio, darparu a gwerthuso gweithgareddau, megis digwyddiadau recriwtio, sioeau lleol, ac ymgynghoriadau ar draws y Gwasanaeth. Hefyd, mae'r Cynllun Rheoli Digwyddiad Gorsaf wedi'i ddiweddarau i gynnwys templedi sy'n cwmpasu'r holl ystyriaethau hanfodol megis lechyd a Diogelwch, cyfleusterau safle, cysylltiadau allweddol, hyrwyddo digwyddiadau, rheoli risg, lluniaeth a gweithdrefnau canslo. Mae'r diweddariadau hyn yn sicrhau bod pob digwyddiad yn cael ei gynnal yn effeithlon ac yn ddiogel.

Gwarchod a gwella ein hamgylchedd



Beth yw ystyr hwn?

Rydym wedi ymrwymo i warchod ein hamgylchedd a'i adnoddau naturiol, gan sicrhau ein bod yn cynnal De Cymru nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae ein gwaith wedi'i wreiddio'n ddwfn mewn ymgysylltu â'r gymuned, gan ymdrechu i sicrhau bod yr amgylchedd naturiol yn ddiogel ac yn hygyrch. Mae deall safleoedd gwarchoddedig a meithrin mentrau lleol yn hollbwysig, p'un a ydym yn cydweithio ag ysgolion neu'n cefnogi partneriaethau lleol.

Sut y byddwn yn diogelu ein hamgylchedd:

- **GOSTWNG** y defnydd o ddeunyddiau defnydd sengl
- **EHANGU'R** defnydd o gerbydau trydan
- **LLEIHOU** ein defnydd o ynni a'n hól troed carbon
- **YSTYRIED** sut mae ein gweithgareddau'n effeithio'r amgylchedd
- **LLEIHOU** faint o wastraff a gynhyrchir

Beth oeddem yn bwriadu ei wneud yn 2023-2024 a'r hyn rydym wedi'i gyflawni hyd yn hyn:

Adolygu datblygiadau mewn tanwydd a thechnolegau eraill i nodi cyfleoedd a all fod o fudd i bolisi adnewyddu asedau fflyd a strategaeth gaffael y Gwasanaeth – i werthuso a datblygu ein dyhead am fflyd wyrddach.

Rydym wedi parhau i newid cerbydau petrol a disel am gerbydau trydan (CT) neu hybrid ynghyd â seilwaith gynhaliol. Ar hyn o bryd mae gennym 47 o gerbydau trydan, 46 hybrid hunan-wefru, a 2 hybrid gyda phlwg sydd gyda'i gilydd yn cyfrif am 21% o gyfanswm ein fflyd - sef cynnydd o 3% ar y cyfnod blaenorol. Ein nod yw cael 70% o'r cerbydau trydan fflyd ysgafn erbyn 2030 ac mae gennym gynlluniau i gefnogi hyn gyda seilwaith gwefru mwy pwerus.

Mae gwefru cerbydau trydan erbyn hyn ar gael mewn 42 o safleoedd, gyda gwefrwyr cyflym yn cael eu hychwanegu mewn pedwar safle eleni. Rydym yn blaenoriaethu gorsafoedd amser cyflawn addas ar gyfer rownd nesaf cyllid Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru (cynorthwyo sefydliadau cymunedol a sector cyhoeddus yng Nghymru i drosglwyddo i sero net).

Cynhaliwyd hefyd werthusiad gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru i archwilio tanwyddau amgen megis biodiesel i gyfrannu at ein cynllun lleihau carbon.




EIN NOD YW CAEL 70% O'R CERBYDAU TRYDAN FFLYD YSGAFN ERBYN 2030 AC MAE GENNYM GYNLLUNIAU I GEFNOGI HYN GYDA SEILWAITH GWEFRU MWY PWERUS.

Gweithredu System Reoli Amgylcheddol achrededig – fel y gallwn gael cydnabyddiaeth am ein harferion amgylcheddol a dangos ein hymrwymiaidau i gynaliadwyedd, ystyried effeithiau amgylcheddol, cydymffurfio â deddfwriaeth, a diogelu'r amgylchedd.

Rydym wedi dechrau cynllunio ar gyfer achrediad y System Rheoli Amgylcheddol (SRh A) a chwblhawyd dadansoddiad bylchau, gan nodi'r camau gweithredu angenrheidiol i gyflawni hyn. Rydym wedi dechrau gweithio ar ein Hadolygiad Amgylcheddol Cychwynnol (AAC), Polisi Amgylcheddol a Chynllun Gwella, a drafftio cynnig ar gyfer system rheoli data SRh A. Ein nod yw cwblhau'r rhain yn gynnar yn 2025, gan gyrraedd Lefel 1 yr SRh A. Mae mapio ar gyfer cyrraedd lefelau uwch eisoes wedi digwydd a bydd y gwaith hwn yn parhau trwy gydol y flwyddyn nesaf.

Datblygu deialog agored gyda staff ar ein sefyllfa o ran lleihau allyriadau carbon a'r heriau sy'n ein hwynebu – drwy ymgysylltu a chynnwys cydweithwyr ar draws y Gwasanaeth, byddwn yn cynyddu ymwybyddiaeth o'n gweithgareddau ac yn annog atebion arloesol.

Rydym wedi drafftio ein strategaeth Ymgysylltu Cynaliadwyedd ac yn cynllunio Grŵp Hyrwyddwyr Cynaliadwyedd gwirfoddol. Rydym wedi bod yn cynllunio pecyn hyfforddiant amgylcheddol ar gyfer staff ac yn rhan o weithgor i ddatblygu pecyn cymorth llythrennedd carbon wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor Penaethiaid Tân Cenedlaethol (CPTC) ar gyfer gwasanaethau tân ac achub ledled y DU. Mae tudalen Cynaliadwyedd newydd ar ein mewnwydd staff yn darparu canolbwynt canolog ar gyfer gwybodaeth a diweddariadau ar weithgareddau cynaliadwyedd, gan gynnwys data ar allyriadau carbon ac ynni. Fel rhan o'n hymrwymiad i Siarteri Teithio iach, cynhaliom arolwg cymudo ar draws y Gwasanaeth i ddeall arferion teithio staff, a chyhoeddwyd canlyniadau ac argymhellion ar gyfer opsiynau teithio cynaliadwy. Rydym hefyd wedi dechrau contract casglu gwastraff newydd i gydymffurfio â deddfwriaeth ailgylchu newydd. Er mwyn cyflawni ein dyletswydd o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae rheoli tir bellach yn rhan o gynlluniau gorsafoedd, gan eu helpu i ddeall risgiau safle a'r gwerth ecolegol i'r gymuned. Byddwn yn parhau i fesur effaith ein camau gweithredu cynaliadwyedd ac yn adrodd ar gynnydd drwy gyfrifon carbon chwarterol ar ein mewnwydd, datganiadau Llywodraeth Cymru, ac adroddiad amgylcheddol blynyddol.



Cytuno a diffinio gofynion safonol adeilad cynaliadwy – yn y tymor hwy, bydd hyn yn sicrhau bod ein hadeiladau yn effeithlon o ran adnoddau ac yn amgylcheddol gyfrifol drwy gydol eu hoes.

Agorodd cyfleuster Chwilio ac Achub Trefol (Ch AT) Cymru newydd yng Ngorsaf Dàn yr Eglwys Newydd a gafodd ei ddylunio yn unol ag ystyriaethau cynaliadwyedd. Mae'r adeilad newydd yn cynnwys paneli solar ffotofoltäig sy'n darparu amcangyfrif o 10,287 cilowat o drydan y flwyddyn, ac arbedion CO2 blynyddol o 2,184kg a system batri 400V i sicrhau hunangynhaliath. Mae'r cais cynllunio ar gyfer Gorsaf Dàn New Inn wedi'i gymeradwyo erbyn hyn, gyda'r nod o gael sgôr carbon sero net gan ddefnyddio deunyddiau cynaliadwy a systemau uwch. Roedd y cais hefyd yn cynnwys darparu manau gwyrdd i wella bioamrywiaeth a darparu cynefinoedd ar gyfer fflora a ffawna lleol. Yn ogystal â hyn, mae gan 70% o'n safleoedd bellach oleuadau LED, ac mae 30 o'r 50 lleoliad wedi'u diweddaru gyda Systemau Rheoli Adeiladau (i reoli a monitro offer trydanol adeilad) gyda'r safleoedd sy'n weddill i gael sylw fel rhan o'r rhaglen adnewyddu. Mae mesuryddion clyfar yn cael eu gosod ym mhob un o'n safleoedd er mwyn monitro'r defnydd o bŵer yn well, ac mae ystafelloedd sychu newydd wedi'u gosod mewn 19 o safleoedd yn dilyn treialon llwyddiannus, gyda mwy wedi'u hamserlennu fel rhan o'r rhaglen adnewyddu. Mae cynllun ailgylchu Elusen y Diffoddwyr Tân 'Bag it and Bank it' wedi cyfrannu 487 tunnell o ddillad ac wedi codi dros £100,000, gyda dwy o'n Gorsafoedd yn y tri uchaf (Gorsaf Dàn Cwmbrân a New Inn) ar draws y Deyrnas Unedig.

Defnyddio technoleg yn dda



Beth yw ystyr hwn?

Yn ein byd digidol sy'n datblygu'n gynyddol, mae'n hollbwysig defnyddio technoleg a rheoli data'n gyfrifol. Dyna pam mae ein systemau'n datblygu'n gyson i sicrhau diogelwch data wrth gefnogi ein gweithrediadau. Bydd ein rhaglen drawsnewid Camu Ymlaen yn sicrhau bod technoleg yn cael ei defnyddio i ysgogi arbedion effeithlonrwydd fel ein bod yn dod yn fwy effeithiol wrth ddarparu gwasanaethau.

Sut byddwn yn defnyddio technoleg yn dda:

- **GWELLA** ein gwasanaethau wrth ddefnyddio'r dechnoleg a'r offer mwyaf addas
- **ADOLYGU** ansawdd a'r defnydd o dechnoleg ac offer ar hyd y Gwasanaeth

Beth oeddem yn bwriadu ei wneud yn 2023-2024 a'r hyn rydym wedi'i gyflawni hyd yn hyn:

Archwilio'r defnydd o ddyfeisiau digidol i hyrwyddo arferion gwaith newydd ac arloesol - gallai defnyddio dyfeisiau cludadwy ar gyfer cofnodi gwybodaeth a diweddarau cofnodion sicrhau arbedion cynaliadwy o ran rheoli data.

Mae'r defnydd o'n system desg gymorth 24/7 wedi'i ymestyn i fwy o adrannau, gan wella rheoli ceisiadau a llwyth gwaith. Rydym wedi rhoi cyhoeddusrwydd i godau QR ar gyfer Tacle'r Tacle a'r ap Fly Mapper er mwyn hwyluso'r broses o adrodd yn gyhoeddus am bryderon a thipio anghyfreithlon. Mae'r rhan fwyaf o weithgareddau recriwtio bellach yn cael eu cynnal ar-lein, gan wella effeithlonrwydd a phrofiad yr ymgeisydd. Hefyd mae llechi wedi'u sicrhau ar gyfer yr adran Rheoli Risg Gweithredol a fydd yn cael eu defnyddio i gefnogi staff, i'w cysylltu'n haws â systemau TGCh y Gwasanaethau pan fyddant yn gweithredu y tu allan i'n hadeiladau. Byddant hefyd yn ddefnyddiol i gefnogi gwell gallu a hygyrchedd mewn cyfarfodydd, gan gyfrannu hefyd at ddefnyddio llai o ddefnydd o bapur.



System desg gymorth 24/7

Adolygu system reoli gwybodaeth y Gwasanaeth i sicrhau bod data ar gael ar gyfer monitro a chynllunio gweithgareddau - sicrhau ein bod yn defnyddio prosesau gwneud penderfyniadau 'ar sail tystiolaeth'.

Mae ein System Gwybodaeth Rheoli Busnes (SGRh B) yn cynnwys cyfres eang o ddangosfyrddau data ac adroddiadau a ddefnyddir i nodi meysydd i'w gwella ac i fonitro perfformiad parhaus, sydd erbyn hyn yn cynnwys cyfres o adroddiadau ar gyfer y tîm Hyfforddi a Datblygu sy'n symleiddio'r gwaith monitro cofrestradau a chwblhau ar gyfer cyrsiau. Bydd systemau TGCh y Gwasanaeth, a fydd yn cynnwys ein system SGRh B, yn destun adolygiad cyfanwerthol fel rhan o'r prosiect Trawsnewid Digidol, sef un o'r naw prosiect sy'n rhan o'n Rhaglen Trawsnewid Camu Ymlaen.



OUR IT DEPARTMENT HAVE CONTINUED WORK ON UPGRADING ALL OUR SERVERS WHICH WILL ENSURE WE ARE USING TECHNOLOGY AT ITS OPTIMUM.

Archwilio technoleg i ehangu ein cyfres o weithgareddau lleihau risg - gall defnyddio technoleg gynyddu ein cyrhaeddiad lleihau risg drwy effeithlonrwydd ac ymgysylltu â chynulleidfa ehangach.

Dechreuwyd prosiect System Cudd-wybodaeth Weithredol (SCWW) i nodi a gwerthuso system newydd i ddisodli'r system Diogelwch Tân i Fusnesau (DTF) sy'n darparu storfa ganolog ar gyfer data a gasglwyd ar safleoedd yr ymwelwyd â hwy. Bydd y system hefyd yn caniatáu nodi risgiau, dyrannu gwaith a chynhyrchu gohebiaeth. Bydd datganiadau yn y dyfodol yn ein galluogi i weithredu modiwlau ychwanegol seiliedig ar risg megis Gwybodaeth Risg Safle Penodol (GRSP).

Gwella a thyfu'r Rhaglen Archwilio Seiliedig ar Risg electronig a gyflwynwyd yn ddiweddar ar gyfer eiddo annomestig, yn seiliedig ar y risg i ddiogelwch bywyd personau perthnasol - bydd hyn yn cefnogi ymweliadau a gynlluniwyd ymlaen llaw i wirio cydymffurfiaeth yn unol â gofynion y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân).

Mae ffurflen archwilio electronig wedi'i datblygu i wella'r wybodaeth sydd ar gael ar y Rhaglen Archwilio Seiliedig ar Risg. Hefyd, ffurfiwyd gweithgor i ddod o hyd i ddarparwr system newydd ar gyfer y rhaglen. Derbyniodd y grŵp fewnbwn gan ddarpar ddarparwyr ac mae wrthi'n adolygu opsiynau i lywio'r broses benderfynu cyn dyfarnu contract.

Parhau â'r rhaglen i uwchraddio pob gweinydd - bydd amnewid neu uwchraddio gweinyddion yn ein galluogi i adolygu rhaglenni a lleihau costau wrth gynyddu effeithlonrwydd a diogelwch.

Mae ein hadran TGCh wedi parhau i weithio ar uwchraddio ein holl weinyddion a fydd yn sicrhau ein bod yn defnyddio technoleg ar ei gorau. Bydd hyn yn ein galluogi i adolygu ein cymwysiaid meddalwedd a gwneud mwy o welliannau ac felly gwella effeithlonrwydd.

Datblygu system negeseuon a fydd yn galluogi lechyd Galwedigaethol i gadarnhau apwyntiadau trwy negeseuon testun a derbyn diweddariadau am y rhai a gafodd eu derbyn yn llwyddiannus - bydd hyn yn gwella effeithlonrwydd ac yn lleihau nifer yr apwyntiadau a gollwyd.

Mae cynlluniau i ddatblygu system negeseuon ar gyfer cadarnhau apwyntiadau lechyd Galwedigaethol trwy negeseuon testun wedi'u gohirio wrth i ni ystyried system rheoli cleifion mwy cynhwysfawr fel dewis arall.

Gwerthfawrogi ein pobl



Beth yw ystyr hwn?

Rydym yn rhoi gwerth ar ein pobl ac yn eu gwerthfawrogi gan ystyried mai hwythau yw ein hased mwyaf hanfodol wrth gyrraedd ein nodau a darparu gwasanaeth rhagorol i'n cymunedau. Mae llwyddiant yn gofyn am gael yr unigolion priodol, â'r sgiliau, gwerthoedd ac ymddygiadau priodol, yn y safleoedd cywir ar yr adegau iawn. Rydym yn ymdrechu'n barhaus i sicrhau bod ein gweithlu'n adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu, a dylai pawb gael mynediad at gyfleoedd datblygu i gyflawni gyrfaoedd boddhaus.

Byddwn yn gwerthfawrogi ein pobl wrth:

- **GYFLAWNI** newid sylfaenol yn ein diwylliant, gan ymateb i argymhellion yr Adolygiad Annibynnol i Ddiwylliant
- **DENU** gweithlu sy'n adlewyrchu a chynrychioli ein cymunedau
- **DATBLYGU** ein pobl wrth adnabod cyfleoedd hyfforddi a datblygu
- **CEFNOGI** ein pobl i deimlo'n iach, yn iach ac yn cael eu gwerthfawrogi yn y gwaith
- **CYFLAWNI** argymhellion adroddiad Buddsoddwyr mewn Pobl
- **ANNOG** a chefnogi diwylliant dwyieithog ar draws y Gwasanaeth

Beth oeddem yn bwriadu ei wneud yn 2023-2024 a'r hyn rydym wedi'i gyflawni hyd yn hyn:

Adolygu a chodi ymwybyddiaeth o ystod lawn y Gwasanaeth o raglenni buddion gweithwyr - i sicrhau ei fod yn cefnogi'r holl gydweithiwr a'i fod yn cael ei hyrwyddo ac yn hygyrch.

Cyflwynodd ein tîm Addysgu a Datblygu (AD) y Cynllun Hyfforddi a Mentora i hyfforddi grŵp o staff mewn safon hyfforddi a gydnabyddir yn ffurfiol. Mae hyn wedi helpu cydweithwyr i wella a chymryd rhan mewn sgysiaau ar ddull hyfforddi, megis adolygiadau personol a llwybrau datblygu gyrfa. Ym Medi 2023, fe wnaethom lansio Rhaglen Cymorth i Weithwyr (Rh CG) newydd i ddarparu cymorth iechyd a lles ychwanegol i staff ar draws y Gwasanaeth. Yn ogystal â hyn, bydd cymhwysiad newydd ar gyfer yr holl staff yn cael ei lansio, a fydd yn cynnig plattform mwy hawdd ei ddefnyddio ac ystod ehangach o fuddion nag oedd ar gael yn flaenorol.

Sicrhau bod gan bob aelod o staff fynediad at lwybr dysgu - er mwyn i'r holl weithwyr adeiladu eu gwybodaeth a'u sgiliau i gefnogi eu gyrfa gyda'r Gwasanaeth.

Lansiodd ein tîm Addysgu a Datblygu (AD) y rhaglenni Llwybrau i gefnogi datblygiad sgiliau a gweithio tuag at ddilyniant a dyrchafiad. Mae gan yr holl staff fynediad at Lwybr gydag ystod o lefelau i gefnogi datblygiad o fewn eu rôl bresennol ond hefyd yn darparu cyfleoedd i ddewis cynlluniau dysgu personol i helpu eu rhagolygon ar gyfer dyrchafiad.

Ail-lunio ein fframwaith cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i ddiwallu anghenion a heriau gwasanaeth tân ac achub modern - bydd hyn yn sicrhau bod ein gwasanaethau a'n prosesau yn deg ac yn hygyrch.

Amlygodd yr Adolygiad Annibynnol i Ddiwylliant ddiffygion yn y ffordd y mae'r Gwasanaeth yn delio â phrofiadau staff o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Bydd gweithredu argymhellion Adroddiad Morris yn ein helpu i ailwampio ein fframweithiau a gweithdrefnau a gwneud GTADC yn lle gwell i weithio. Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol wedi cael ei ailysgrifennu ac rydym wedi lansio Cynllun Gweithredu Cynhwysol newydd gydag amcanion wedi'u neilltuo i gyfarwyddiaethau perthnasol ac arweinydd yr uwch dîm arwain (UDA) ar gyfer atebolrwydd a monitro. Hefyd, cynhaliwyd fforwm meincnodi diwylliannol i staff ddarparu adborth mewn amgylchedd diogel, a gyhoeddwyd wedyn ar ein dangosfwrdd diwylliant mewnol, a oedd yn hygyrch i bob aelod o staff.

Staff di-wisg a Diffoddwyr Tân yn defnyddio'u gwybodaeth i ymgysylltu â'r cyhoedd mewn digwyddiad recriwtio.



Parhau i weithio'n effeithio



Beth yw ystyr hwn?

Fel gwasanaeth cyhoeddus ein nod yw darparu gwerth am arian a dangos atebolrwydd clir. Byddwn yn parhau i fabwysiadu dulliau newydd a gwell o weithio drwy ein Rhaglen Trawsnewid Camu Ymlaen. Byddwn yn gwella ac yn datblygu'r gwasanaethau a ddarparwn, gan sicrhau bod ein gweithgareddau'n cael eu craffu'n drylwyr trwy fonitro perfformiad mewnol cadarn, archwiliadau mewnol, asesiadau annibynnol allanol a meincnodi yn erbyn gwasanaethau tân ac achub modern eraill.

Sut y byddwn yn parhau i weithio'n effeithiol:

- **BOD** yn eglur a'n atebol i'r cyhoedd
- **EITHAFU** gwerth am arian wrth wella ein gwasanaeth
- **DATBLYGU** ffyrdd newydd o weithio

Beth oeddem yn bwriadu ei wneud yn 2023-2024 a'r hyn rydym wedi'i gyflawni hyd yn hyn:

Paratoi a chynllunio ar gyfer effaith y Bil Caffael a'r Bil Caffael Cyhoeddus a Phartneriaeth Gymdeithasol – bydd hyn yn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â rheoliadau caffael cyhoeddus i sicrhau effeithlonrwydd, tryloywder a hyblygrwydd.

Mae ein fîm Caffael wedi datblygu pecyn cymorth cynaliadwy sy'n arwain arweinwyr caffael drwy gyfres o gwestiynau'n ymwneud â chynaliadwyedd amgylcheddol ynghyd â set o egwyddorion i sicrhau bod ein gwaith gyda chontractwyr yn cynnwys ac yn hyrwyddo ystyriaethau amgylcheddol. Rydym hefyd wedi cymryd rhan yn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar reoleiddio'r Bil Caffael, ac mae aelodau o'n fîm Caffael wedi'u cofrestru ar gyfer hyfforddiant Llywodraeth Cymru ar y mater hwn.



Mae gwaith agos â chontractwyr allanol yn sicrhau fod GTADC yn cydymffurfio â rheoliadau.



BYDDWN YN PARHAU I FABWYSIADU DULLIAU NEWYDD A GWELL O WEITHIO DRWY EIN RHAGLEN TRAWSNEWID CAMU YMLAEN.

Adolygu a diwygio gweithdrefnau yn dilyn unrhyw newidiadau deddfwriaethol yn y dyfodol i Gymru – i sicrhau y gallwn gyflawni ein dyletswyddau fel corff rheoleiddio.

Rydym wedi parhau â'n hymdrechion i roi Ymarfer Diwygio Pensiwn cenedlaethol McCloud ar waith (newid pensiwn y sector cyhoeddus o'r cyflog terfynol i gyfartaledd gyrfa a gwahaniaethu ar sail oed ar gyfer gweithwyr iau), a Rhwymedi Pensiwn Matthews (diffoddwyr tân rhan amser wrth gefn yn cael eu trin yn llai ffafriol ac yn gallu prynu buddion pensiynadwy yn ôl). Mae achosion wedi'u blaenoriaethu fel yr argymhellir gan ddeddfwriaeth. Hefyd, darparwyd hyfforddiant staff ar Adran 156 o Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022 a roddwyd ar waith gan Lywodraeth Cymru. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn berthnasol i bob eiddo annomestig a chyfrifoldebau sy'n ofynnol gan y 'personau cyfrifol'.

Adolygu ein gweithdrefnau gwared – i sicrhau bod ein hasedau, o gerbydau i ddodrefn, yn cael eu rheoli drwy gydol eu cylch bywyd.

Mae ein polisi a'n proses Caffael eisoes yn hyrwyddo ystyried gwaredu wrth gaffael eitemau ond eleni rydym wedi bod yn adolygu ein prosesau presennol ar gyfer gwaredu eitemau:

Rydym wedi adolygu a gweithredu ein gweithdrefnau gwaredu asedau a rheoli gwastraff. Mae enghreifftiau'n cynnwys gwaredu cerbydau mewn arwerthiannau a rhoddion i wledydd y trydydd byd; storio eitemau y gellir eu hailddefnyddio megis dodrefn i'w defnyddio yn y dyfodol; ac ailgylchu hen wisgoed.

Rydym wedi rhoi canllawiau clir ar waredu gwastraff i staff er mwyn parhau i hyrwyddo cynaliadwyedd a rheoli adnoddau'n effeithlon.

Sut wnaethom ddatblygu ein cynllun ar gyfer 2025-2026


Mae ein proses cynllunio strategol yn gylch blwyddyn sy'n cyd-fynd â'r flwyddyn ariannol. Yn ystod y chwe mis cyntaf o Ebrill rydym yn monitro cyflawniad ein cynlluniau, a bydd adroddiadau cynnydd a pherfformiad yn cael eu harchwilio o fewn adrannau a chan ein Uwch Dîm Arwain (UDA) a'r Comisiynwyr. Rydym yn adolygu effaith ein camau gweithredu yn ystod y flwyddyn flaenorol ac yn ymgysylltu â'n staff a rhanddeiliaid i gasglu'r ystod eang o wybodaeth sydd ei hangen i greu a chyhoeddi ein Cynllun Gwella Blynyddol erbyn diwedd Hydref.

Ymgynghoriad Cychwynnol

Cam pwysig yw'r ymgynghoriad cychwynnol tair wythnos a ddechreuodd eleni ar 23ain o Fai 2024. Gofynnem i'n staff, rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol ein helpu i lunio ein cynlluniau drwy rannu eu pryderon a gofyn oedd gennym y blaenoriaethau cywir ac a oeddem yn gwneud yr hyn y credent y dylem fod yn ei wneud. Bydd adborth o'r rhag-ymgynghoriad yn helpu i lywio cynllunio ar gyfer y dyfodol a beth fydd ein blaenoriaethau o ran camau gweithredu ar gyfer 2025-2026.

Hyrwyddwyd yr arolwg, sydd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, drwy law e-bost i'n cofrestr rhanddeiliaid ac i'r holl staff drwy e-bost, cylchlythyrau mewnol, yr ap staff ac ar fewnrwyd y Gwasanaeth.

Cawsom 53 o ymatebion gyda'r rhan fwyaf gan staff neu bobl eraill gyda chysylltiadau â'r Gwasanaeth, gyda chytundeb cyffredinol bod wyth o'n themâu strategol yn bwysig o hyd.



Thema Strategol Pwysigrwyd i'r Ymatebwyr (ar raddfa o 1-5, gyda 5 yn bwysig iawn ac 1 ddim yn bwysig o gwbl) – Yn seiliedig ar 53 o ymatebion yn 2024 ac 88 o ymatebion yn 2023.

Cwynion a Chanmoliaeth

